

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL  
GYMDEITHASOL:  
57/2022  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
18 AWST 2022

# Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2021

## Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru yn 2021

Michael Davies ac Angharad Pilsworth, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o fanylion, anfonwch ohebiaeth at:

Y Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau

Croeso Cymru

Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru](mailto:ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru)

## Cynnwys

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau .....	2
1. Y prif ganfyddiadau .....	4
2. Cyflwyniad.....	7
3. Methodoleg .....	13
4. Cyfran yr atyniadau a oedd ar agor yn 2021.....	16
5. Y 10 prif atyniad rhad ac am ddim ac â thâl.....	21
6. Ymweliadau yn ystod 2021 .....	24
7. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth .....	31
8. Taliadau mynediad.....	39
9. Gweithrediadau .....	42
10. Proffil ymwelwyr ar gyfer 2021 .....	46
11. Rhestr o atyniadau a ymatebodd i'r arolwg.....	50
12. Atodiadau.....	61

## **Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau**

Hoffai Croeso Cymru ac SRI ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a gweithredwyr yn y sector atyniadau a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno. Heb eu cymorth, ni fyddai'n bosibl coladu'r ffigurau hyn.

### **Amcangyfrifon / nid yw ffigurau ymweliadau ar gael**

Rhoddir ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad hwn mewn ffydd dda ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan berchenogion atyniadau. Sylwer y gallai fod yn anodd gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o ymwelwyr mewn atyniadau penodol.

Os oedd atyniad wedi amcangyfrif ei ffigur ymwelwyr blynyddol, yna mae'r ffigur a ddarperir ganddynt yn cynnwys seren (\*).

### **Mynediad**

Os yw atyniad yn codi tâl am fynediad, rhoddir y tâl mynediad i oedolion ar gyfer y prif dymor. Os dywedodd yr atyniad ei fod yn codi tâl am fynediad, ond ni nododd beth oedd y tâl mynediad, mae wedi'i farcio ag NDd (= ni ddarparwyd).

Y taliadau mynediad a gynhwysir yn yr adroddiad yw'r rhai a ddarparwyd i SRI gan weithredwyr. Gall y rhain fod yn wahanol i'r rhai a nodir ar wefannau.

### **Categoriâu atyniadau**

Mae atyniadau wedi'u dosbarthu fesul categori at ddibenion dadansoddi. Dangosir y categorïau yn y tabl dros y dudalen. Sylwer nad yw atyniadau yn perthyn yn daclus i un categori yn unig bob amser. Rydym wedi dosbarthu pob atyniad i'r categori sydd fwyaf addas iddynt.

## Talfyriad

CATEGORI	ACRONYM	EGLURHAD
Rhanbarthau	C	Canolbarth Cymru
	G	Gogledd Cymru
	D-dd	De-ddwyrain Cymru
	D-o	De-orllewin Cymru
Perchenogaeth	AC	Amgueddfa Cymru
	Cadw	Cadw
	DC	Dŵr Cymru
	ALI / PC	Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol
	CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
	YG	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	PB	Perchnogaeth breifat (perchnogion unigol preifat, sefydliad / ymddiriedolaeth ac ati)
	RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Categori	A / G	Atyniad antur / gweithgaredd
	PG	Parc gwledig, gardd, atyniadau eraill sy'n seiliedig ar natur
	Fferm	Fferm / bridiau prin
	B / D	Atyniad bwyd neu ddiod
	EH	Eiddo hanesyddol, cestyll, caerau, tai hanesyddol, palasau, henebion hanesyddol, safleoedd archaeolegol, eiddo hanesyddol eraill, canolfannau treftadaeth, addoldai
	DIW	Atyniad diwylliannol / crefft
	AOC	Amgueddfeydd a /neu orielau celf, canolfannau celfyddydau
	Rh / T	Rheilffordd / tramffordd / teithio / atyniad trafndiaeth / teithiau
	CW / T	Canolfan Wyddoniaeth / technoleg
	Thema	Parciau hamdden, parciau thema
	BG	Gwarchodfa bywyd gwyllt / natur
	ARALL	Atyniad arall

## 1. Y prif ganfyddiadau

### Dull

- 1.1 Roedd yn bosibl i atyniadau gwblhau'r arolwg ar-lein neu dros y ffôn. Dechreuodd yr arolwg ym mis Mawrth 2022 a gorffennodd ym mis Mehefin 2022. Cwblhaodd 323 o atyniadau'r arolwg, allan o 484 o atyniadau a wahoddwyd i gymryd rhan, tra bod 5 arall wedi ymateb, ond nid oeddent yn gallu darparu ffigurau ymwelwyr (cyfanswm cyfradd ymateb 68%).
- 1.2 Cynhaliwyd 15 o gyfweiliadau dilynol dros y ffôn hefyd gydag atyniadau. Roedd y trywyddau ymholi yn ystod y cyfweiliadau manwl yn debyg i'r rheini yn yr holiadur meintiol. Diben y cyfweiliadau oedd ychwanegu gwybodaeth gyd-destunol at rai o'r themâu a gododd o'r arolwg meintiol.

### Ni chyrrhaeddodd cyfran yr atyniadau a oedd ar agor y lefelau a welwyd yn 2019 cyn y pandemig

- 1.3 Ym mis Ebrill 2021, roedd 36% o atyniadau ar agor, sy'n cyfateb â'r adeg y llaciodd Llywodraeth Cymru gyfyngiadau tua diwedd mis Ebrill. Cynyddodd hyn eto ym mis Mai pan agorodd 68% o atyniadau a symudodd Cymru i lefel rhybudd tri COVID-19 ar ddechrau mis Mai, ac i lefel rhybudd dau COVID-19 ganol mis Mai, gan olygu bod mwy o atyniadau yn gallu ailagor yn gyfreithiol.
- 1.4 Roedd cyfran yr atyniadau a oedd ar agor bob mis yn 2021 ar ei huchaf ym mis Awst a mis Medi, pan oedd 83% ar agor. O gymharu â hyn, roedd cyfran yr atyniadau a oedd ar agor bob mis yn 2019 ar ei huchaf ym mis Gorffennaf (98%), ac ar gyfer 2020, roedd ar ei huchaf ym mis Chwefror (67%), cyn y pandemig.
- 1.5 Mae'r canlyniadau'n amrywio yn ôl y math o leoliad sydd o dan sylw. Ym mis Awst 2021, dim ond 62% o atyniadau dan do yn unig oedd ar agor, o gymharu â 95% o atyniadau awyr agored, a 93% o atyniadau sydd ag elfennau dan do ac awyr agored.

### Cynyddodd capasiti gweithredu cyfartalog

- 1.6 Dywedodd tua hanner (48%) o'r atyniadau fod eu capasiti gweithredu cyfartalog pan oeddent ar agor yn 2021 rhwng 80% a chapasiti llawn. Dim ond 16% oedd yn gweithredu ar y capasiti hwn yn 2020.

### Gwnaed 17.4 miliwn o ymweliadau ag atyniadau a ddarparodd ddata yn 2021

- 1.7 Roedd 64% o'r ymweliadau hyn ag atyniadau rhad ac am ddim, ac roedd 36% yn ymweliadau ag atyniadau â thâl.

- 1.8 Roedd bron hanner (45%) o'r ymweliadau hyn ag atyniadau yng Ngogledd Cymru, ac roedd 27% o ymweliadau ag atyniadau yn Ne-ddwyrain Cymru, 21% ag atyniadau yn Ne-orllewin Cymru, a 7% ag atyniadau yng Nghanolbarth Cymru.
- 1.9 Roedd parciau gwledig / gerddi a gwarchodfeydd bywyd gwyllt / natur wedi parhau i wneud yn well nag atyniadau eraill yn ystod y pandemig. Yn 2019, roedd parciau gwledig/gerddi a gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur yn gyfrifol am 26% o ymweliadau, gan godi i 45% yn 2020 a 46% yn 2021. O gymharu, roedd amgueddfeydd / orielau celf yn gyfrifol am 26% o ymweliadau yn 2019, gan ostwng i 15% yn 2020 a gostwng hyd yn oed ymhellach i 6% yn 2021.

### **Adroddodd y rhan fwyaf o atyniadau y bu cynnydd mewn ymwelwyr yn ystod 2021**

- 1.10 Dywedodd 85% fod nifer eu hymwelwyr wedi cynyddu, dywedodd 3% eu bod wedi aros yr un peth, a dywedodd 12% fod nifer eu hymwelwyr wedi gostwng.
- 1.11 Roedd atyniadau dan do yn unig wedi gwneud yn waeth nag eraill. Dim ond 71% o atyniadau dan do a ddywedodd fod nifer eu hymwelwyr wedi cynyddu, o gymharu â 90% o atyniadau awyr agored, a 90% o atyniadau sydd ag elfennau dan do ac awyr agored.
- 1.12 Roedd y prif resymau dros gynnydd mewn ymwelwyr yn ymwneud â chyfyngiadau COVID-19, gan gynnwys y gallu i agor yn ystod adegau prysur yr haf, llai o gyfyngiadau, a chynnydd yn hyder ddefnyddwyr o gymharu â 2020.
- 1.13 Er y dywedodd 85% fod nifer eu hymwelwyr wedi cynyddu yn 2021, dim ond 67% a ddywedodd fod eu refeniw gros wedi cynyddu. Dywedodd 22% ei fod yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, a dywedodd 11% ei fod yn is na'r flwyddyn flaenorol.

### **Roedd ffigurau ymwelwyr ymhell islaw'r lefelau yn 2019, cyn y pandemig**

- 1.14 Cynyddodd ymweliadau ag atyniadau 68% rhwng 2020 a 2021, ond roedd ymweliadau 33% yn is o hyd na'r ymweliadau yn 2019.
- 1.15 Roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau dan do 78% yn is nag yn 2019, tra bod nifer yr ymwelwyr ag atyniadau tanddaearol 56% yn is, a 34% yn is yn achos atyniadau a ddosbarthir yn rhai dan do ac yn yr awyr agored. Aeth niferoedd ymwelwyr ag atyniadau awyr agored yn groes i'r duedd, ac roeddent 3% yn uwch na 2019.
- 1.16 Roedd nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd/orielau celf 78% yn is yn 2021 nag yn 2019. O gymharu â hyn, dim ond 3% yn is oedd ymweliadau â gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur, tra bod ymweliadau â pharciau/gerddi gwledig ac atyniadau antur/gweithgaredd dim ond 2% yn is.

- 1.17 Wrth edrych ar y canlyniadau fesul perchennog, roedd ymweliadau ag atyniadau a weithredir gan Amgueddfa Cymru 74% yn is yn 2021 nag yr oeddent yn 2019. O gymharu â hyn, roedd ymweliadau â safleoedd a weithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru 4% yn uwch.

### **Cynyddodd taliadau mynediad yn ystod 2021**

- 1.18 Cododd taliadau mynediad cyfartalog 6% i oedolion a 10% i blant.
- 1.19 Mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod angen i atyniadau adennill colledion o 2020, a hefyd bod y taliadau yn cynnwys y gost gynyddol o redeg eu hatyniad. Mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod y tâl mynediad cyfartalog yn debygol o godi eto yn 2022.

### **Cafodd atyniadau anhawster i recriwtio staff**

- 1.20 Bu cynnydd o 17% yn nifer y staff ymhlith atyniadau rhwng 2020 a 2021, ond, roedd hyn yn dal i fod ymhell islaw'r lefelau yn 2019, cyn y pandemig.
- 1.21 Mae sylwadau ansoddol yn awgrymu y bu recriwtio yn her sylweddol yn 2021. Hyd yn oed pe bai atyniadau am gyflogi mwy o staff, nid oedd pob un yn gallu llenwi'r swyddi yr oeddent yn recriwtio ar eu cyfer. Mae'r broblem hon wedi parhau i rai i mewn i 2022.

### **Yr atyniadau rhad ac am ddim gorau a'r atyniadau â thâl gorau yn 2021**

- 1.22 Yr atyniad â thâl a dderbyniodd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2021 oedd Castell Caerdydd, ac yna Fferm Folly a Phortmeirion.
- 1.23 Yr atyniad rhad ac am ddim a gafodd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2021 oedd Parc Pleser Ynys y Barri. Fodd bynnag, darparodd yr atyniad hwn ffigurau amcangyfrifedig ac mae'n cynnwys tâl mynediad i nifer o'r reidiau ac atyniadau yn y parc pleser. Cafodd Parc Hwyl Tir Prince a Pharc Gwledig Pen-bre yr ail a'r trydydd nifer uchaf o ymwelwyr.



## 2. Cyflwyniad

### Cefndir

2.1 Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gwaith yr ymchwil yw:

- (1) Pennu ac adrodd ar niferoedd yr ymweliadau ag atyniadau ledled Cymru.
- (2) Dadansoddi data a gasglwyd ar niferoedd ymweliadau er mwyn nodi'r tueddiadau cyfredol.
- (3) Darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o ddata a gynhwysir yn yr arolwg, gan gynnwys ffigurau ymweliadau, gweithrediadau, refeniw, marchnata ac adnoddau dynol.
- (4) Dadansoddi data yn ôl categorïau atyniadau, pedwar rhanbarth economaidd Cymru, a'r polisi codi tâl mynediad (rhad ac am ddim yn erbyn â thâl).

### Diffiniad o atyniad twristiaeth

2.2 Mae'r ymchwil yn defnyddio'r diffiniad o atyniad twristiaeth<sup>1</sup> y cytunwyd arno gan y pedwar Bwrdd Twristiaeth Cenedlaethol ar gyfer arolwg 2001, lle nodir bod atyniad twristiaeth yn:

- (1) "...Atyniad, lle mae'n bosibl codi tâl am fynediad at y diben o weld golygfeydd yn unig. Rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith wedi'i sefydlu'n barhaol, a'i brif bwrpas yw caniatáu mynediad ar gyfer adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn safle manwerthu neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatrig neu ffilm yn bennaf.

Rhaid iddo fod ar agor i'r cyhoedd heb iddynt orfod archebu ymlaen llaw, ar gyfer cyfnodau a gyhoeddir bob blwyddyn, a dylai fod yn gallu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid ynghyd â phreswylwyr lleol. Yn ogystal, rhaid i'r atyniad fod yn fusnes unigol, o dan reolaeth unigol, fel ei fod yn gallu ateb cwestiynau economaidd ar refeniw, cyflogaeth ac ati, a rhaid ei fod yn derbyn refeniw gan yr ymwelwyr yn uniongyrchol."

---

<sup>1</sup> Mae'r diffiniad hwn yn effeithio ar Ganolfan Mileniwm Cymru, a ellid ei dosbarthu fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer perfformiadau ... theatraidd ...', a fyddai'n ei heithrio o'r ymchwil hon. Nid yw'r lleoliad yn perthyn i'r dosbarthiad uchod yn union oherwydd, a bod yn fanwl gywir, nid yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol' ond, yn hytrach, mae'n cynnwys theatr, adeilad o arwyddocâd pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys mynychwyr y theatr nac ymwelwyr y mae prif bwrpas eu hymweliad yn gysylltiedig â'r theatr (e.e., prynu/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, mae Canolfan y Mileniwm wedi'i rhestru y tudalennau canlynol, gan gydnabod nad yw'n gweddu i'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob agwedd. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu â chofnodion eraill.


## Amcanion

2.3 Diben yr adroddiad hwn yw monitro tueddiadau yn y sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r sector i sefydliadau'r diwydiant a'r sector cyhoeddus ac i ledaenu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

## Crynodeb economaidd y DU ar gyfer 2021

2.4 Tyfodd economi'r DU 7.4% yn 2021, sef y gyfradd twf blynyddol gyflymaf ers yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, roedd yn adfer o ganlyniad i effeithiau pandemig COVID-19 pan blymiodd CDG y DU 9.3% yn 2020<sup>2</sup>.

Ffigur 2.1: Cynnyrch Domestig Gros y DU (%) 2019-2021



- 2.5 Ar ddechrau 2021, roedd cyfyngiadau symud cenedlaethol y DU ar waith unwaith eto, gan orfodi busnesau i gau, a gostyngodd gwariant cartrefi. Gwnaeth yr ymgyrch frechu COVID-19, a ddechreuodd ar 8 Rhagfyr 2020, helpu economi'r DU i adfer yn gyflym yn 2021. Roedd y ffaith bod mwy o bobl wedi cael eu brechu yn golygu y gellid codi'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith i helpu i reoli lledaeniad y feirws ac y gallai mwy o bobl ddychwelyd i'r gwaith<sup>3</sup>.
- 2.6 Erbyn mis Tachwedd 2021, roedd gweithgarwch economaidd y DU wedi dychwelyd i'r lefelau a fu cyn y pandemig, er y profodd yr economi rhywfaint o ergyd ym mis Rhagfyr 2021 (gostyngodd CDG 0.2%) wrth i wariant defnyddwyr leihau o ganlyniad i achosion o'r amrywiolyn Omicron o COVID-19<sup>4</sup>.
- 2.7 Nododd canfyddiadau allweddol o Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 y DU<sup>5</sup>, a gynhaliwyd rhwng 6 Ebrill 2021 a 9 Mai 2021, fod tua hanner (48%) yn credu bod y 'gwaethaf

<sup>2</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol: [GDP: Year on Year Growth](#)

<sup>3</sup> Banc Lloegr: [Monetary Policy Report - May 2021](#)

<sup>4</sup> Banc Lloegr: [Monetary Policy Report - November 2021](#)

<sup>5</sup> [Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID19 y DU: Adroddiad proffil Cymru 2021 \(Tonau 28-30\)](#)

drosodd' mewn perthynas â COVID-19, sef y ffigur uchaf ers dechrau'r pandemig. Roedd y cynnydd hwn mewn optimistiaeth yn cyfateb i'r ffaith bod cyfran uwch o bobl yn gysurus o ran ymgymryd â gweithgareddau awyr agored a dan do. Er enghraifft, ar ddechrau mis Mawrth 2021, roedd lefelau cysur ar gyfer 'ymweld ag atyniad ymwelwyr dan do' yn +36 net, tra bod lefelau cysur ar gyfer 'mynd am dro mewn parc gwledig neu ar hyd llwybr cerdded lleol' yn +87 net (net yw'r gyfran 'cysurus' minws y gyfran 'anghysurus'). Ddechrau mis Mai 2021, cynyddodd lefelau cysur i +50 net ar gyfer 'ymweld ag atyniad ymwelwyr dan do', a +90 net ar gyfer 'mynd am dro mewn parc gwledig neu ar hyd llwybr cerdded lleol'. Roedd yr ymgyrch frechu yn y DU hefyd yn golygu bod mwy o bobl dros 45 oed, a oedd wedi cael eu brechu, hefyd yn hyderus i fynd ar deithiau dros nos.

### Llinell amser COVID-19 ar gyfer 2021

- 2.8 Yn 2021, dechreuodd Cymru'r flwyddyn o dan fesurau cyfyngiadau symud llym. Ar ddiwedd 2020, roedd achosion COVID-19 ar gynydd ac, o ganlyniad, daeth mesurau newydd i rym ar 4 Rhagfyr 2020. Gorchmynnwyd i atyniadau adloniant ac atyniadau ymwelwyr dan do gau fel rhan o'r mesurau hyn. Wrth i achosion barhau i gynyddu, gorchmynnwyd i atyniadau awyr agored gau hefyd o 14 Rhagfyr ymlaen.
- 2.9 Ar 16 Rhagfyr, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Cymru yn symud i lefel rhybudd pedwar (y lefel uchaf o gyfyngiadau o dan ei chynllun ar gyfer rheoli'r coronafeirws) o ddydd Nadolig ymlaen.
- 2.10 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amserlen ar gyfer llacio cyfyngiadau COVID-19 yng Nghymru<sup>6</sup>:

27 Mawrth 2021	Cododd Cymru gyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau wrth i'r rheol 'aros yn lleol' ddod i ben.
24 Ebrill 2021	Caniatawyd i chwech o bobl o chwe aelwyd gwahanol gwrdd yn yr awyr agored.
26 Ebrill 2021	Caniatawyd i atyniadau awyr agored ailagor. Ailagorodd busnesau lletygarwch awyr agored hefyd. Parhaodd busnesau lletygarwch dan do i fod ar gau heblaw am siopau cludfwyd.
3 Mai 2021	Symudodd Cymru i lefel rhybudd tri COVID-19. Ailagorodd campfeydd, canolfannau hamdden, pyllau nofio a chanolfannau cymunedol. Caniatawyd i ddwy aelwyd gyfarfod a chael cyswllt dan do.
17 Mai 2021	Symudodd Cymru i lefel rhybudd dau COVID-19. Ailagorodd atyniadau dan do a busnesau lletygarwch, yn ogystal ag atyniadau tanddaearol.

<sup>6</sup> Ymchwil y Senedd – Senedd Cymru: [Llinell-amser-coronafeirws-yr-ymateb-yng-Nghymru](#)

17 Mai 2021	Ailddechreuodd teithio rhyngwladol o dan system goleuadau traffig.
7 Mehefin 2021	Dechreuodd Cymru symudiad graddol i lefel rhybudd un. Roedd grwpiau o hyd at 30 o bobl yn gallu cyfarfod yn yr awyr agored a gallai digwyddiadau awyr agored aildechrau.
14 Mehefin 2021	Cynigiwyd y brechiad COVID-19 cyntaf i bob oedolyn yng Nghymru.
17 Gorffennaf 2021	Symudodd Cymru i lefel rhybudd un COVID-19 yn gyfan gwbl. Gallai hyd at chwech o bobl gyfarfod dan do mewn cartrefi preifat neu lety gwyliau. Nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar nifer y bobl a allai ymgynnull yn yr awyr agored.
26 Gorffennaf 2021	Roedd mwy na dwy filiwn o bobl yng Nghymru bellach wedi'u brechu'n llawn.
7 Awst 2021	Symudodd Cymru i lefel rhybudd sero COVID-19, gan olygu bod y mwyafrif o gyfyngiadau COVID-19 Cymru wedi'u codi, gan gynnwys y rheol ar nifer y bobl a allai gyfarfod dan do. Llwyddodd pob busnes i ailagor. Ni fyddai'n rhaid i bobl a oedd wedi'u brechu'n llawn hunanynysu mwyach pe baent yn dod i gysylltiad â COVID-19. Ond roedd gwisgo masgiau yn parhau i fod yn orfodol yn y mwyafrif o fannau cyhoeddus dan do yng Nghymru.
29 Hydref 2021	Parhaodd Cymru i fod ar lefel rhybudd sero ond newidiodd y canllawiau hunanynysu – gofynnwyd i bawb a oedd wedi cael eu brechu hunanynysu os oeddent wedi dod i gysylltiad â COVID-19, nes iddynt gael prawf PCR negyddol.
30 Tachwedd 2021	Roedd rhaid i bob teithiwr a oedd yn cyrraedd o dramor wneud prawf PCR ar ôl i ddau achos o'r amrywiolyn Omicron o COVID-19 gael eu canfod yn y DU.
3 Rhagfyr 2021	Nodwyd yr achos cyntaf o'r amrywiolyn Omicron o COVID-19 yng Nghymru.
7 Rhagfyr 2021	Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai pob oedolyn dros 18 oed yng Nghymru yn cael cynnig brechiad atgyfnerthu erbyn diwedd 2021.
26 Rhagfyr 21	Symudodd Cymru i lefel rhybudd dau COVID-19, pan ddychwelodd cyfyngiadau ar nifer y bobl mewn digwyddiadau cymdeithasol a'r mesur cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr.

- 2.11 Yn gyffredinol, caniatwyd i atyniadau awyr agored agor am tua 36 wythnos y flwyddyn, a chaniatwyd i atyniadau dan do ac atyniadau tanddaearol fod ar agor am tua 33 wythnos.
- 2.12 O gymharu, yn 2020 roedd atyniadau awyr agored yn cael agor am oddeutu 31 wythnos y flwyddyn, roedd atyniadau dan do yn cael agor am oddeutu 29 wythnos, ac roedd atyniadau tanddaearol yn cael agor am oddeutu 27 wythnos.

### **Ffigurau ymwelwyr â'r DU ar gyfer 2021**

- 2.13 Roedd 6.2 miliwn o ymweliadau i mewn i'r DU yn 2021<sup>7</sup>. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), ond effeithiwyd ar weithrediad yr arolwg o ganlyniad i bandemig COVID-19. Ailddechreuodd yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yn 2021 ond ni chasglwyd unrhyw ddata ar gyfer y rhai a oedd yn teithio i'r DU trwy'r Eurotunnel ac, yn achos y bobl hynny a oedd yn teithio drwy Dover, dim ond o chwarter tri ymlaen y cafodd data ei gasglu.
- 2.14 Fodd bynnag, yn achos data ar deithiau awyr, mae set ddata gyflawn ar gyfer 2021 ar gael, sy'n ein galluogi i gymharu 2021 â 2019. Roedd 4.8 miliwn o ymweliadau awyr i mewn i'r DU yn 2021 – gostyngiad o 85% o gymharu â 2019<sup>8</sup>.
- 2.15 O'r 6.2 miliwn o ymweliadau â'r DU yn 2021, roedd 116,000 â Chymru<sup>9</sup>. Mae hyn yn cymharu ag 1.02 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2019<sup>10</sup>, er fel y nodir uchod, mae cyfyngiadau o ran cymharu data o 2021 â data a gasglwyd cyn y pandemig.

### **Crynodeb o'r hinsawdd ar gyfer 2021<sup>11</sup>**

- 2.16 Roedd 2021 ychydig yn gynhesach na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Roedd y glawiad yn 2021 yn agos at y cyfartaledd ar gyfer llawer o'r DU.
- 2.17 Roedd mis Ebrill y mwyaf heulog a gofnodwyd erioed, ac roedd yr amseru'n braf pan laciwyd y cyfyngiadau COVID-19 fel y gallai chwech o bobl gwrdd yn yr awyr agored, a hefyd ail-agorodd atyniadau awyr agored yn ystod wythnos olaf mis Ebrill.
- 2.18 Ond mis Mai oedd y gwlypaf erioed yng Nghymru, a'r pedwerydd gwlypaf ar gyfer y DU gyfan. Ailagorodd atyniadau dan do a busneau lletygarwch dan do ym mis Mai, mewn pryd ar gyfer y glawiad hwn.

---

<sup>7</sup> Ffigurau ymweliadau i mewn i'r DU: [Visit Britain 2021 inbound data](#)

<sup>8</sup> Diweddariad Chwarterol Ymweliadau i Mewn a Blwyddyn Lawn 2021: [International Passenger Survey by the ONS](#)

<sup>9</sup> Diweddariad Chwarterol Rhanbarthol Ymweliadau i Mewn a Blwyddyn Lawn 2021: [International Passenger Survey by the ONS](#)

<sup>10</sup> Tueddiadau ymweliadau i mewn fesul gwlad, rhanbarth a sir yn y DU: [International Passenger Survey by the ONS](#)

<sup>11</sup> Y Swyddfa Dywydd –Hinsawdd a thywydd: [2021-a-year-in-weather-a-review](#)

- 2.19 Bu cyfnod o dywydd poeth ym mis Gorffennaf, a arweiniodd at y rhybudd gwres eithafol oren cyntaf erioed roedd y Swyddfa Dywydd wedi'i roi ar gyfer y DU. Bu cyfnod o dywydd poeth rhwng 13 a 26 Gorffennaf a chododd y tymheredd uwchlaw 30°C am chwe diwrnod yn olynol. Tarodd Storm Evert y DU ym mis Gorffennaf, gan ddod â glaw trwm a gwyntoedd cryf iawn, nad oedd yn nodweddiadol ar gyfer yr adeg honno o'r flwyddyn.
- 2.20 Hydref 2021 oedd y trydydd cynhesaf erioed yn y DU. Roedd mis Hydref yn sylweddol wlypach na'r cyfartaledd ac, ym mis Tachwedd, cafodd y DU ei tharo gan un o'r stormydd mwyaf pwerus a dinistriol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf (Storm Arwen), y cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd tywydd coch ar ei chyfer.

### **3. Methodoleg**

#### **Cynnal yr ymchwil**

- 3.1 Dechreuodd gwaith maes ar gyfer yr arolwg ym mis Mawrth 2022 a daeth i ben ym mis Mehefin 2022.
- 3.2 Diweddarwyd y gronfa ddata o atyniadau cyn i'r gwaith maes ddechrau. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared ar fusnesau nad oeddent yn bodloni'r diffiniad o atyniad i dwristiaid, fel yr amlinellwyd yn 2.2, a chwilio am atyniadau newydd.
- 3.3 Anfonwyd dolen i'r arolwg mewn neges e-bost at atyniadau ar 21 Mawrth 2022. Anfonwyd e-bost atgoffa bythefnos yn ddiweddarach, ar 4 Ebrill 2022. Dilynwyd hyn gan alwadau ffôn dilynol ar gyfer y rheini nad oeddent wedi ymateb i'r ddau e-bost cyntaf. Anfonwyd e-bost atgoffa terfynol ar 16 Mai 2022, a daeth yr arolwg i ben ar 6 Mehefin 2022.
- 3.4 Gwahoddwyd sefydliadau â nifer mawr o atyniadau i gwblhau taenlen yn hytrach nag arolwg ar-lein ar gyfer pob un o'u safleoedd. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys Amgueddfa Cymru, Cadw, Dŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- 3.5 Roedd yr holiadur yn seiliedig ar yr holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol er mwyn sicrhau y gellir cymharu rhyngddynt. Roedd yr arolwg a holl ddeunydd yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

#### **Cyfweliadau dilynol**

- 3.6 Cynhaliwyd 15 o gyfweliadau dilynol gydag atyniadau hefyd yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2022. Roedd y trywyddau ymholi yn ystod y cyfweliadau manwl yn debyg i'r rheini yn yr holiadur meintiol. Diben y cyfweliadau oedd ychwanegu gwybodaeth gyd-destunol at rai o'r themâu a gododd o'r arolwg meintiol.
- 3.7 Fe wnaethom geisio cyfweliadau ag ystod o atyniadau, gan gynnwys atyniadau o wahanol gategorïau, rhanbarthau, a mathau o leoliadau.

#### **Cyfraddau ymateb**

- 3.8 Gwahoddwyd cyfanswm o 484 o atyniadau y barnwyd eu bod yn bodloni'r diffiniad o atyniad twristiaid i gymryd rhan. Mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer eleni a blynyddoedd blaenorol wedi'u nodi yn Ffigur 3.1 drosodd.
- 3.9 Cyfanswm y gyfradd ymateb i'r arolwg oedd 68% – ffigur uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn o ganlyniad i ymdrechion i gynyddu'r gyfradd ymateb mewn blynyddoedd blaenorol.

Ffigur 3.1: Cyfraddau ymateb

Cyfraddau ymateb	2021	2020	2019	2018	2017	2016**
Cyfanswm yr atyniadau y cysylltwyd â nhw	484	569	569	570	571	609
Atyniadau sydd wedi cwblhau'r arolwg	323* 67%	260* 46%	299 53%	248 44%	237 42%	216 35%
Atyniadau a ymatebodd ond nad oeddent yn gallu darparu ffigurau**	5 1%	73 13%	34 6%	20 4%	1 0.2%	Amherthnasol
<b>CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB</b>	<b>328 68%</b>	<b>333 59%</b>	<b>333 59%</b>	<b>268 47%</b>	<b>238 42%</b>	<b>216 35%</b>

\* Mae atyniadau a oedd ar gau oherwydd y pandemig wedi'u cynnwys yn y gyfran a gwblhaodd yr arolygon yn 2021 a 2020, oherwydd eu bod wedi darparu data rhannol er nad oeddent ar agor i ymwelwyr

\*\* Cyn arolwg 2019/2020, roedd y rhes hon yn cynnwys atyniadau a ymatebodd i ddweud eu bod ar gau

## Y dull cofnodi ar gyfer nifer yr ymwelwyr

- 3.10 Er mwyn asesu dibynadwyedd ffigurau'r ymwelwyr a ddarparwyd gan atyniadau, gofynnwyd i atyniadau sut y maent yn cyfrif nifer eu hymwelwyr. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 3.2 isod.
- 3.11 Mae'r ffigurau'n dod i fwy na 100% oherwydd bod rhai atyniadau'n sôn am dulliau lluosog. Mae dulliau 'eraill' o gofnodi niferoedd ymwelwyr yn cynnwys cyfrif ceir yn bennaf.

Ffigur 3.2: Dulliau cofnodi ar gyfer nifer yr ymwelwyr

Dull cofnodi	Nifer	%
O werthiannau tocynnau / neu werthiannau archebion grŵp	132	47%
Dull mecanyddol neu electronig o gyfrif (e.e. giât dro)	78	28%
Dull â llaw o gyfrif niferoedd	51	18%
Amcangyfrif yn unig	42	15%
Amcangyfrif yn unig ar sail cyfrif sampl	10	4%
Arall	6	2%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (278)

- 3.12 Mae'r canlyniadau uchod yn debyg i'r dulliau cofnodi ar gyfer 2020 a 2019. Mae'r canlyniadau wedi bod ychydig yn wahanol ers 2018, gyda chynnydd yng nghyfran yr atyniadau sy'n darparu ffigurau 'amcangyfrif yn unig' (9% yn 2018). Ers 2019, bu ymdrech i hybu cyfraddau ymateb. Mae'n debygol bod y cynnydd yng nghyfran yr atyniadau a gwblhaodd yr arolwg ers 2018, yn enwedig atyniadau llai, wedi cynyddu'r gyfran sy'n darparu amcangyfrifon.



3.13 Er bod y gyfran o atyniadau sy'n seilio'u ffigurau ymwelwyr ar 'amcangyfrifon yn unig' wedi cynyddu ychydig ers 2018, mae'r atyniadau hyn ond yn gyfrifol am gyfran fach o'r sampl, a gwnaeth gweddill yr atyniadau gyfrif eu ffigurau ymwelwyr ar sail dulliau cofnodi sy'n fwy manwl gywir.

### **Nodiadau ar yr adroddiad**

- 3.14 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2021. Fodd bynnag, gwnaed cymariaethau â data o flynyddoedd blaenorol pan farnwyd y byddai'n fanteisiol gwneud hynny.
- 3.15 Pan fo modd, mae cymariaethau wedi canolbwyntio ar ddata o atyniadau a gwblhaodd yr arolwg presennol, ac arolygon blaenorol, fel y gellir gwneud cymariaethau o ffactorau tebyg. Os nad oedd hyn yn bosibl, yna rydym wedi nodi bod y gymhariaeth yn adlewyrchu samplau gwahanol.
- 3.16 Mae cymariaethau o ffactorau tebyg wedi canolbwyntio ar newidiadau canrannol o'r naill flwyddyn i'r llall, yn hytrach nag ar gyflwyno ffigurau absoliwt. Mae hyn er mwyn osgoi dryswch drwy ddarparu dwy set o ffigurau: ffigurau a ddefnyddiwyd i roi cyfanswm ffigurau ar gyfer 2021, a ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer cymariaethau o ffactorau tebyg. Byddai'r ffigurau hyn yn wahanol oherwydd meintiau sampl gwahanol.
- 3.17 Gall y sylfaen (sampl) amrywio mewn rhannau gwahanol o'r adroddiad. Er enghraifft, gall y data a ddangosir ddangos canlyniadau o'r holl atyniadau a gwblhaodd arolwg eleni, neu ddata o atyniadau a gwblhaodd arolwg eleni ac arolygon blaenorol. Rhewm arall efallai yw nad oedd rhai atyniadau yn gallu ateb pob rhan o'r arolwg.
- 3.18 Ym mhob rhan o'r adroddiad hwn, mae samplau o ddeg neu lai wedi'u lliwio'n goch a'u dangos mewn ysgrifen italig er mwyn dynodi'r angen i fod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau. Mae'r data wedi'i ddadansoddi fesul rhanbarth, berchennog, categori a newidynnau eraill os yw canlyniadau wedi bod yn deilwng o gael eu dadansoddi ymhellach, ac os yw maint y sampl yn gwneud hynny'n bosibl.
- 3.19 Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli atyniadau a gwblhaodd yr arolwg, ac nid pob atyniad ledled Cymru. Fodd bynnag, cwblhaodd mwyafrif helaeth yr atyniadau mawr yng Nghymru yr arolwg, a chyflawnwyd cyfradd ymateb uchel. Felly, dylai'r arolwg roi amlinellid cywir o dueddiadau yn y sector.
- 3.20 Pan ydym yn cyfeirio at ganfyddiadau ansoddol, mae hyn yn cyfeirio at y canfyddiadau o'r cyfweliadau manwl dilynol, a sylwadau agored a ddarparwyd yn yr arolwg meintiol.

## 4. Cyfran yr atyniadau a oedd ar agor yn 2021


- 4.1 Nifer cymharol fach o atyniadau oedd ar agor ym mis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth 2021, sy'n cyd-fynd â lefel rhybudd pedwar COVID-19, pan fo'n ofynnol i bobl 'aros gartref'.
- 4.2 Dim ond 13% o atyniadau oedd ar agor ym mis Ionawr a mis Chwefror, a 15% ym mis Mawrth. Cafodd rhai atyniadau awyr agored, gan gynnwys mannau awyr agored sy'n perthyn i eiddo treftadaeth, parciau gwledig, a gwarchodfeydd natur, ganiatâd i aros ar agor a chael eu defnyddio ar gyfer ymarfer corff, sy'n esbonio pam arhosodd canran fach ar agor.
- 4.3 Ym mis Ebrill, roedd 36% o atyniadau ar agor, sy'n cyfateb â'r adeg y llaciodd Llywodraeth Cymru gyfyngiadau tua diwedd mis Ebrill. Cynyddodd hyn eto ym mis Mai pan agorodd 68% o atyniadau a symudodd Cymru i lefel rhybudd tri COVID-19 ar ddechrau mis Mai, ac i lefel rhybudd dau COVID-19 ganol mis Mai, gan olygu bod mwy o atyniadau yn gallu ailagor yn gyfreithiol.
- 4.4 Cynyddodd cyfran yr atyniadau a oedd ar agor i 83% ym mis Awst – y ganran uchaf ers codi'r cyfyngiadau. Codwyd deddfau cadw pellter cymdeithasol ym mis Awst.
- 4.5 Unwaith y cafodd atyniadau ganiatâd i ailagor ym mis Ebrill a mis Mai 2021, agorodd rhagor o atyniadau yn ystod gweddill y flwyddyn. Er na chyrhaeddodd cyfran yr atyniadau a agorwyd y lefelau yn 2019 – cyn y pandemig,— yn union, roedd yn sylweddol well na 2020.
- 4.6 Roedd cyfran yr atyniadau a fu ar gau drwy gydol y flwyddyn oherwydd COVID-19 yn debyg rhwng 2020 a 2021. Bu 15% o atyniadau ar gau drwy gydol y flwyddyn yn 2020 o gymharu â 14% yn 2021. Sylwer mai dim ond ers 2020 y mae atyniadau a oedd ar gau wedi'u cynnwys yn yr arolwg, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai atyniadau fod ar gau oherwydd pandemig COVID-19.
- 4.7 Mae'r rhesymau a roddwyd gan atyniadau dros fod ar gau yn 2021 yn cynnwys:
  - Dewis peidio ag ailagor oherwydd bod yr atyniad yn fach, ac felly ei fod yn methu gweithredu'n ddiogel ac o fewn rheoliadau cadw pellter cymdeithasol.
  - Dewis peidio ag ailagor nes y bydd nifer yr ymwelwyr yn debygol o wella'n sylweddol, oherwydd bod yr atyniad yn anhyfyw os oes gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr.
  - Dim digon o wirfoddolwyr i allu ailagor yr atyniad, neu wirfoddolwyr yn anfodlon dychwelyd nes bod y sefyllfa'n gwella o ran COVID-19.
  - Mae'r atyniad yn cael ei adnewyddu.
- 4.8 Soniodd rhai o'r atyniadau a oedd ar gau o ganlyniad i ffactorau'n ymwneud â COVID-19 eu bod wedi ailagor neu'n bwriadu ailagor yn ystod 2022.

*“Doedden ni ddim yn gallu agor oherwydd maint yr atyniad (mae'n fach iawn), felly doedden ni ddim yn gallu gweithredu mesurau pellter cymdeithasol digonol. Hefyd,*

*dim ond trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr y gellir agor yr atyniad –mae llawer ohonyn nhw wedi ymddeol gyda gwendidau iechyd”*  
Atyniad dan do

*“Rydyn ni wedi bod ar gau bellach ers tua dwy flynedd. Rydwn ni'n gobeithio ailagor ym mis Gorffennaf, ond ar sail gyfyngedig gan ein bod ni'n atyniad bach. Felly, dim ond dau ddiwrnod yr wythnos fydd hi i ddechrau. Rydwn ni'n cael ein rhedeg gan wirfoddolwyr, felly rydwn ni'n gobeithio cael yr atyniad yn ôl ar ei draed eto ac yn gweithio yn gyntaf, ac yna gallwn ni edrych ar agor ar ddiwrnodau ychwanegol”*  
Atyniad dan do

Ffigur 4.1



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299), 2020 (260) a 2021 (323)

*Sylwer mai dim ond ers 2020 y mae atyniadau a oedd ar gau wedi'u cynnwys yn yr arolwg, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai atyniadau fod ar gau oherwydd pandemig COVID-19*

- 4.9 Mae Ffigur 4.2 yn dangos cyfran yr atyniadau a oedd ar agor bob mis yn 2021 fesul math o leoliad (dan do, awyr agored, dan do ac awyr agored, neu tanddaearol).
- 4.10 Yn ystod mis Ionawr, mis Chwefror a mis Mawrth, nid oedd unrhyw atyniadau dan do ar agor gan nad oedd hawl gyfreithiol iddynt i fod ar agor. Dewisodd tua 45% o atyniadau awyr agored aros ar agor yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn. Fel y dywedwyd o'r blaen, dim ond at ddibenion ymarfer corff y rhoddwyd caniatâd i atyniadau awyr agored aros ar agor yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Roedd nifer sylweddol o'r rhain yn warchodfeydd natur awyr agored.

4.11 Agorodd mwyafrif helaeth yr atyniadau awyr agored rhwng mis Mai a mis Hydref 2021 – gyda'r nifer mwyaf ym mis Mehefin, mis Awst a mis Medi, sef tua 95%. Roedd cyfran sylweddol lai o atyniadau dan do ar agor o gymharu – 51% ym mis Mehefin, 59% ym mis Gorffennaf, 62% ym mis Awst a 66% ym mis Medi.

Ffigur 4.2: Math o leoliad a oedd ar agor fesul mis yn 2021

Mis	Dan do	Awyr agored	Y ddau – dan do ac awyr agored	Tanddaearol
Ionawr	0%	44%	7%	0%
Chwefror	0%	44%	7%	0%
Mawrth	0%	45%	11%	0%
Ebrill	5%	68%	43%	0%
Mai	42%	91%	75%	100%
Mehefin	51%	95%	84%	100%
Gorffennaf	59%	94%	90%	100%
Awst	62%	95%	93%	100%
Medi	66%	95%	91%	100%
Hydref	63%	88%	82%	100%
Tachwedd	51%	73%	64%	25%
Rhagfyr	48%	69%	63%	50%
Ar gau drwy gydol y flwyddyn	30%	4%	6%	0%

Sampl: Atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021: dan do (112), awyr agored (78), y ddau (129), tanddaearol (4)

*Rhybudd: Meintiau sampl bach ar gyfer atyniadau tanddaearol*

4.12 Un ffactor nad yw wedi'i nodi, yw'r adborth ansoddol gan ychydig o atyniadau a ddywedodd, er iddynt ailagor pan roddwyd caniatâd iddynt wneud hynny, nad oeddent wedi ailagor yn llawn i ddechrau. Dim ond ar rai dyddiau penodol y gwnaethant ddewis ailagor i ddechrau. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth yw cyfran yr atyniadau a ddewisodd ailagor yn rhannol, oherwydd ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn yr arolwg yn benodol.


4.13 Wrth edrych ymlaen at 2022, mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod rhai atyniadau yn ystyried cau yn gynnar yn 2022, oherwydd y gost gynyddol o weithredu. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer atyniadau y mae costau ynni cynyddol yn debygol o gael yr effaith fwyaf arnynt.

*“Dyw'r galw ddim yn fawr yn ystod y gaeaf beth bynnag, ond cyn y pandemig, fe fydden ni'n dod drwyddi oherwydd y bydden ni wedi gwneud mor dda yn ystod misoedd yr haf. Rwy'n meddwl y byddwn ni'n debygol o gau ychydig yn gynharach eleni oherwydd costau tanwydd”*  
Atyniad dan do ac awyr agored

## Capasiti gweithredu yn ystod 2021

- 4.14 Gofynnwyd i atyniadau a oedd ar agor ar ba ganran o'u lefel capasiti arferol yr oeddent yn gweithredu arni, ar gyfartaledd, pan oeddent ar agor yn ystod 2021. Mae Ffigur 4.3 yn dangos bod dros draean (36%) ar agor ar eu capasiti llawn.
- 4.15 Mae'r canlyniadau i'r cwestiwn hwn yn amrywio fesul math o leoliad. Cyfran yr atyniadau awyr agored a oedd yn gweithredu i'w capasiti llawn yn 2021 oedd 61%, o gymharu â dim ond 17% o atyniadau dan do, a 34% ar gyfer atyniadau dan do ac awyr agored. Nid oedd unrhyw un o'r pedwar atyniad tanddaearol yn gweithredu i'w gapasiti llawn.


Ffigur 4.3




Sampl: atyniadau a ddarparodd data (278)

- 4.16 Mae Ffigurau 4.4 a 4.5 yn dangos cymhariaeth o'r capasiti gweithredu cyfartalog ar gyfer 2021 a 2020. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r canlyniadau hyn oherwydd bod y sampl rhwng pob blwyddyn yn wahanol. Serch hynny, mae'n debygol bod y siart yn dangos rhai o'r tueddiadau newidiol rhwng 2021 a 2020.

Ffigur 4.4



Ffigur 4.5



Sampl: atyniadau 'a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 (278) a 2020 (154)

4.17 Mae sylwadau ansoddol gan atyniadau yn awgrymu bod llawer wedi dewis gweithredu i'w capasiti llawn pan oeddent yn cael gwneud hynny yn gyfreithiol. Fodd bynnag, dewisodd rhai weithredu ar lefelau capasiti llai er mwyn sicrhau y gallai eu hymwelwyr deimlo mor ddiogel â phosibl. Fel y nodir ym mhwynt 7.14 yn ddiweddarach yn yr adroddiad, roedd rhai o'r atyniadau dan do o'r farn eu bod wedi dioddef mwy nag atyniadau awyr agored yn 2021, oherwydd eu bod yn teimlo bod rhai ymwelwyr yn dal i fod yn wylidwrus o ymweld ag atyniadau dan do.

*“Fe wnaethon ni ddarganfod trwy ein hymchwil ein hunain fod ymwelwyr â'r safle yn wylidwrus y byddai'r safle'n rhy brysur. Felly fe benderfynon ni barhau â chapasiti llai er y gallwn ni fod wedi cael mwy o ymwelwyr yn gyfreithiol”*  
Atyniad dan do

## 5. Y 10 prif atyniad rhad ac am ddim ac â thâl

### Y 10 atyniad â thâl â'r nifer mwyaf o ymwelwyr yn ystod 2021

- 5.1 Castell Caerdydd oedd yr atyniad â thâl a adroddodd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2021 (372,606 o ymwelwyr). Mae Castell Caerdydd wedi bod ymhlith y tri atyniad â thâl uchaf dros y pedair blynedd diwethaf.
- 5.2 Daeth Fferm Folly yn ail gyda 348,689 o ymwelwyr yn 2021, ac mae hefyd wedi bod ymhlith y tri atyniad â thâl uchaf dros y pedair blynedd diwethaf. Daeth Portmeirion yn drydydd gyda 285,191 o ymwelwyr yn 2021, ar ôl bod yn bedwerydd yn 2020 ac yn chweched yn 2019.
- 5.3 Roedd saith o'r 10 atyniad â thâl uchaf ar gyfer 2021 hefyd ymhlith y 10 atyniad â thâl uchaf ar gyfer 2020. Mae Ceudyllau Llechi Zip World (wythfed) a Chastell Conwy (nawfed) wedi cyrraedd y 10 uchaf ar ôl bod yn y deuddegfed a'r pymthegfed safle yn y drefn honno yn 2020. Cyrhaeddodd Nova (chweched) y 10 atyniad â thâl uchaf hefyd.
- 5.4 O'r 10 atyniad â thâl uchaf, Portmeirion a Nova oedd yr unig ddau atyniad i gyflawni cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn 2021 o gymharu â'r lefelau yn 2019. Nid yw'r 10 atyniad gorau arall wedi llwyddo i adennill y niferoedd o ymwelwyr a fu ganddynt cyn y pandemig.
- 5.5 Derbyniodd y 10 prif atyniad â thâl ar gyfer 2021 oddeutu 2.4 miliwn o ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrif am 38% o'r holl ymweliadau â'r atyniadau â thâl, sydd bron yn ôl i'r lefelau yn 2019 cyn y pandemig pan oeddent yn gyfrifol am 33%. Yn 2020, roedd y 10 atyniad â thâl uchaf yn cyfrif am 51% o'r holl ymweliadau ag atyniadau â thâl.

Ffigur 5.1: Y 10 atyniad â thâl â'r nifer mwyaf o ymwelwyr ar gyfer 2019, 2020 a 2021

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer yr ymweliadau 2019	Nifer yr ymweliadau 2020	Nifer yr ymweliadau 2021	£ Oedolyn	£ Plentyn
1 Castell Caerdydd	D-dd	ALI/PC	EH	502,224*	195,930	372,606	£14.50	£10.00
2 Folly Farm	D-o	PB	Fferm	438,234	203,073	348,689	£19.95	£17.95
3 Portmeirion	G	PB	EH	245,690	128,596	285,191	£15.00	£9.00
4 LC Abertawe	D-o	PB	Thema	678,714*	185,312*	285,047*	£8.00	£6.00
5 Gardd Bodnant	G	YG	PG	271,339	106,728	239,790	£14.00	£7.00
6 Nova	G	ALI/PC	Thema	150,000*	-	200,000*	† <sup>12</sup>	£4.90
7 Fforest Zip World	G	PB	A/G	223,500	121,035	180,225	£25.00	£25.00
8 Ceudyllau Llechi Zip World	G	PB	A/G	179,000	46,000	160,255	£25.00	£20.00
9 Castell Conwy	G	Cadw	EH	212,364	35,553	152,281	£9.90	£6.90
10 Chwarel y Penrhyn, Zip World	G	PB	A/G	145,000	80,600	142,889	£99.00	£99.00

Mae ffigurau ymwelwyr sydd wedi'u dynodi â seren (\*) yn cynnwys ffigurau ymwelwyr amcangyfrifedig.

<sup>12</sup> Rhad ac am ddim i oedolion ond â thâl mynediad i blant

## **Y 10 prif atyniad rhad ac am ddim â'r nifer mwyaf o ymwelwyr yn 2021**

- 5.6 O'r atyniadau mynediad rhad ac am ddim a ddarparodd ddata ar gyfer 2021, Parc Pleser Ynys y Barri dderbyniodd y nifer mwyaf o ymwelwyr gyda 1,250,000 o ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ffigurau amcangyfrifedig ac maent yn cynnwys tâl mynediad i nifer o reidiau ac atyniadau yn y parc pleser.
- 5.7 Roedd Parc Pleser Ynys y Barri yn newydd-ddyfodiad i'r arolwg yn 2021 gan nad oedd wedi cymryd rhan mewn arolygon yn y gorffennol. Mae hyn hefyd yn wir am Barc Gwledig Gwepra a Pharc Gwledig Margam.
- 5.8 Parc Gwledig Pen-bre oedd y trydydd atyniad rhad ac am ddim yr ymwelwyd ag ef fwyaf yn 2021 (804,513), cynnydd o 50% ers 2020 a chynnydd o 24% ers 2019. Mae Parc Gwledig Pen-bre wedi rhagori ar nifer yr ymwelwyr cyn y pandemig. Yn yr un modd, profodd Gwarchodfa Natur Niwbwrch a Gwarchodfa Natur Ystagsbwill niferoedd uwch o ymwelwyr yn 2021 nag yn 2019.
- 5.9 Nid oes syndod bod atyniadau awyr agored yn dominyddu'r 10 atyniad rhad ac am ddim gorau yn 2021 wrth i gyfyngiadau ar atyniadau awyr agored lacio cyn atyniadau dan do. Mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod llawer o atyniadau yn credu bod ymwelwyr yn dal i fod yn wiliadwrus ynghylch ymweld ag atyniadau dan do am gyfnod ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi.
- 5.10 Canolfan Mileniwm Cymru oedd y prif atyniad rhad ac am ddim gyda'r nifer mwyaf o ymwelwyr yn 2019, 2018 a 2017. Yn 2021, roedd Canolfan Mileniwm Cymru yn safle 32 o ran nifer yr ymwelwyr, sef gostyngiad o 55% o gymharu â 2020 a gostyngiad o 92% o gymharu â 2019. Priodolwyd y gostyngiad hwn yn nifer yr ymwelwyr i ffactorau yn ymwneud â chyfyngiadau COVID-19, gwaith ailddatblygu parhaus y gofod ffisegol ar y safle, a llai o weithredwyr trydydd parti ar agor ar y safle.
- 5.11 Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd hefyd wedi disgyn allan o'r 10 atyniad rhad ac am ddim uchaf, ar ôl bod yr wythfed atyniad rhad ac am ddim yr ymwelwyd â hi fwyaf yn 2020, a'r seithfed yn 2019 a 2018.
- 5.12 Derbyniodd y 10 atyniad rhad ac am ddim uchaf ar gyfer 2021 tua chwe miliwn o ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrif am 53% o'r holl ymweliadau a wnaed ag atyniadau rhad ac am ddim. Mae hyn yn ôl i'r lefelau a welwyd yn 2019 (50%).



Ffigur 5.2: Y 10 atyniad rhad ac am ddim â'r nifer mwyaf o ymwelwyr ar gyfer 2019, 2020 a 2021

	Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer yr ymweliadau 2019	Nifer yr ymweliadau 2020	Nifer yr ymweliadau 2021
1	Parc Pleser Ynys y Barri	D-dd	PB	Thema	-	-	1,250,000*
2	Parc Hwyl Tir Prince	G	PB	Thema	1,000,000*	-	1,000,000*
3	Parc Gwledig Pen-bre	D-o	ALI/PC	PG	611,114	405,444	804,513
4	Gwarchodfa Natur Niwbwrch	G	CNC	BG	485,533*	342,676*	559,939*
5	Cerddwyr ar yr Wyddfa	G	ALI/PC	BG	587,864	329,271	544,489
6	Parc Coedwig Gwydir	G	CNC	BG	371,655*	280,383*	408,511*
7	Parc Gwledig Gwepra	G	ALI/PC	PG	-	-	400,000*
8	Gwarchodfa Natur Ystafbwl	D-o	YG	BG	256,746*	129,753*	390,498*
9	Parc Gwledig Margam	D-o	PB	PG	-	-	305,678
10	Traphont Ddŵr Pontcysyllte	G	PB	EH	410,041*	275,336*	285,411*

Mae ffigurau ymwelwyr sydd wedi'u dynodi â seren (\*) yn cynnwys ffigurau ymwelwyr amcangyfrifedig.

## 6. Ymweliadau yn ystod 2021

### Cyfanswm yr ymweliadau ar gyfer 2021

- 6.1 Gwnaed tuag 17.4 miliwn o ymweliadau ag atyniadau a ddarparodd ddata yn 2021.
- 6.2 Roedd y 25 o brif atyniadau yn cyfrif am bron hanner o'r holl ymweliadau a gofnodwyd (55% o ymweliadau, ac 9,610,377 o ymweliadau yn gyfan gwbl).

### Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o fynediad

- 6.3 Gwnaed dwy ran o dair (64%) o ymweliadau ag atyniadau rhad ac am ddim, a gwnaed ychydig dros draean (36%) o ymweliadau ag atyniadau â thâl. Mae hyn yn sylweddol wahanol i gyfran yr atyniadau rhad ac am ddim ac atyniadau â thâl a gwblhaodd yr arolwg (46% a 54% yn y drefn honno).

Ffigur 6.1: Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o fynediad

Math o fynediad	Sampl	% yr atyniadau	Nifer yr ymweliadau	% o ymweliadau
Yn rhad ac am ddim	128	46%	11,177,283	64%
Â thâl	150	54%	6,251,012	36%
Cyfanswm	278	100%	17,428,295	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (278)

Ffigur 6.2

Roedd tua **dwyr ran**  
**o dair (64%)** o  
ymweliadau ag atyniadau  
**am ddim**



Tra bod **ychydig dros**  
**draean (36%)** yn  
atyniadau **taledig**

### Cyfanswm yr ymweliadau fesul rhanbarth

- 6.4 Yr atyniadau yng Ngogledd Cymru a gymerodd ran gafodd y gyfran fwyaf o ymweliadau (45%). Mae hyn yn uwch na chyfran yr atyniadau a gwblhaodd yr arolwg o Ogledd Cymru (33%).
- 6.5 Mae cyfran yr ymweliadau ag atyniadau yn Ne-ddwyrain Cymru yr un peth â chyfran yr atyniadau a gwblhaodd yr arolwg o Dde-ddwyrain Cymru (27%). Yn yr un modd, mae cyfran yr ymweliadau ag atyniadau yn Ne-orllewin Cymru yn debyg i'r gyfran a gwblhaodd yr arolwg o Dde-orllewin Cymru (22%).


6.6 Mae cyfran yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghanolbarth Cymru (7%) yn sylweddol is na'r gyfran a gwblhaodd yr arolwg o Ganolbarth Cymru (18%).

Ffigur 6.3: Cyfanswm yr ymweliadau fesul rhanbarth

Rhanbarth	Sampl	% yr atyniadau	Nifer yr ymweliadau	% o ymweliadau
Canolbarth	51	18%	1,147,439	7%
Gogledd	91	33%	7,910,613	45%
De-ddwyrain	76	27%	4,782,132	27%
De-orllewin	60	22%	3,588,111	21%
Cyfanswm	278	100%	17,428,295	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (278)

Ffigur 6.4: Canran yr ymweliadau fesul rhanbarth



### Cyfanswm yr ymweliadau fesul categori atyniad

6.7 Gwarchodfeydd bywyd gwylt neu natur oedd y math o atyniad yr ymwelwyd ag ef fwyaf , a oedd yn cyfrif am 28% o'r ymweliadau ag atyniadau yn 2021. Mae hyn yn uwch na chyfran y gwarchodfeydd bywyd gwylt neu natur a gwblhaodd yr arolwg (19%).

6.8 Yr ail fath o atyniad yr ymwelwyd ag ef fwyaf oedd parciau gwledig/gerddi, a oedd yn cyfrif am 18% o'r ymweliadau. Eto, mae hyn yn uwch na chyfran y parciau gwledig/gerddi a gwblhaodd yr arolwg (9%).

- 6.9 Perfformiodd amgueddfeydd/orielau celf yn arbennig o wael yn 2021. Roedd yr atyniadau hyn yn cyfrif am 23% o'r atyniadau a gwblhaodd yr arolwg, ond dim ond 6% o'r ymweliadau a wnaed â'r mathau hyn o atyniadau yn 2021.
- 6.10 Mae perfformiad y tri math hyn o atyniad wedi newid yn sylweddol yn ystod pandemig COVID-19. Yn 2019, roedd parciau gwledig/gerddi a gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur yn cyfrif am 26% o ymweliadau, gan godi i 45% yn 2020 a 46% yn 2021. O gymharu, roedd amgueddfeydd/orielau celf yn cyfrif am 26% o ymweliadau yn 2019, gan ostwng i 15% yn 2020 a gostwng hyd yn oed ymhellach i 6% yn 2021.
- 6.11 Mae perfformiad gwahanol fathau o gategoriâu atyniadau yn cael ei archwilio'n fanylach yn adran 7 (dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth).

Ffigur 6.5: Cyfanswm yr ymweliadau fesul categori atyniad

Categori atyniad	Sampl	% yr atyniadau	Nifer yr ymweliadau	% o ymweliadau
Amgueddfa / oriel gelf	65	23%	1,119,802	6%
Atyniad antur / gweithgaredd	14	5%	1,272,446	7%
Atyniad bwyd neu ddiod	9	3%	50,638	0%
Atyniad diwydiannol / crefft	14	5%	126,688	1%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	4	1%	102,018	1%
Eiddo hanesyddol	58	21%	2,780,792	16%
Fferm / bridiau prin	12	4%	591,304	3%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	52	19%	4,798,653	28%
Parc gwledig / gardd	25	9%	3,083,148	18%
Parc thema / hamdden	4	1%	2,735,047	16%
Rheilffordd / teithio	18	6%	747,062	4%
Atyniad arall	3	1%	20,697	0%
Cyfanswm	278	100%	17,428,295	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (278)

*Rhybudd: meintiau sampl bach*

### Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o leoliad

- 6.12 Mae data ar gyfer atyniadau dan do ac awyr agored yn dangos y duedd ymwelwyr ar gyfer 2021. Roedd atyniadau dan do yn cyfrif am 28% o'r atyniadau a gwblhaodd yr arolwg, ond dim ond yn cyfrif am 7% o'r ymweliadau â phob atyniad. O gymharu, roedd atyniadau awyr

agored yn cyfrif am 27% o'r atyniadau a gwblhaodd yr arolwg, ond yn cyfrif am 45% o'r ymweliadau â phob atyniad.


Ffigur 6.6: Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o leoliad

Categori atyniad	Sampl	% yr atyniadau	Nifer yr ymweliadau	% o ymweliadau
Dan do	78	28%	1,291,749	7%
Awyr agored	75	27%	7,770,490	45%
Y ddau – dan do ac awyr agored	121	44%	8,243,260	47%
Tanddaearol	4	1%	122,796	1%
Cyfanswm	278	100%	17,428,295	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (278)

*Rhybudd: Maint sampl bach*

Ffigur 6.7: Canran yr ymweliadau fesul math o leoliad



### Cyfanswm yr ymweliadau fesul perchennog

- 6.13 Atyniadau dan berchnogaeth breifat dderbyniodd y gyfran fwyaf o ymweliadau (42%). Fodd bynnag, mae hyn yn is na chyfran yr atyniadau dan berchnogaeth breifat a gwblhaodd yr arolwg (56%).
- 6.14 Cafodd atyniadau sy'n eiddo i awdurdodau lleol neu barciau cenedlaethol gyfran uwch o ymweliadau o gymharu â'r gyfran a gwblhaodd yr arolwg. Roedd yr atyniadau hyn yn cyfrif am 21% o'r ymweliadau ond dim ond 15% o'r atyniadau a gwblhaodd yr arolwg.
- 6.15 Mae'r un peth yn wir am ymweliadau â safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y rhain yn cyfrif am 16% o'r holl ymweliadau, ond dim ond 10% o'r atyniadau a gwblhaodd yr arolwg.
- 6.16 Roedd cyfran yr ymweliadau ar gyfer y mathau o berchnogaeth sy'n weddill yn eithaf tebyg i'w cyfran yn y sampl a gwblhaodd yr arolwg.

Ffigur 6.8: Cyfanswm yr ymweliadau fesul perchennog

Rhanbarth	Sampl	% yr atyniadau	Nifer yr ymweliadau	% o ymweliadau
Cadw	19	7%	784,772	5%
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	43	15%	3,729,868	21%
Amgueddfa Cymru	7	3%	516,654	3%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	16	6%	1,386,777	8%
Cyfoeth Naturiol Cymru	27	10%	2,865,304	16%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	157	56%	7,374,857	42%
RSPB	5	2%	194,657	1%
Dŵr Cymru	4	1%	575,406	3%
Cyfanswm	278	100%	17,428,295	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata (278)

*Rhybudd: meintiau sampl bach*

## Cynnydd / gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr

6.17 Nid yw'n syndod bod y rhan fwyaf (85%) o atyniadau wedi nodi cynnydd mewn ymwelwyr ar gyfer 2021 o gymharu â 2020. Fodd bynnag, ni wnaeth atyniadau dan do berfformio cystal â mathau eraill o atyniadau. Dim ond 71% o atyniadau dan do nododd cynnydd mewn ymweliadau, a dywedodd 26% ohonynt eu bod wedi profi gostyngiad. O gymharu, nododd 90% o atyniadau awyr agored gynnydd mewn ymwelwyr, a dim ond 6% nododd ostyngiad.

Ffigur 6.9: Cynnydd / gostyngiad yn y niferoedd o ymwelwyr – 2021 o'i chymharu â 2020

Newidiadau yn nifer yr ymweliadau yn 2021 o'i chymharu â 2020	Dan do	Awyr agored	Y ddau – dan do ac awyr agored	Tanddaearol	Pob un
Cynnydd	71%	90%	90%	100%	85%
Heb newid	3%	4%	3%	0%	3%
Gostyngiad	26%	6%	8%	0%	12%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata, ac eithrio'r rhai a ddywedodd 'ddim yn gwybod' (dan do 73, awyr agored 72, y ddau 116, tanddaearol 4)

*Rhybudd: Maint sampl bach ar gyfer rhai atyniadau tanddaearol*

## Ffactorau ar gyfer y cynnydd mewn ymwelwyr yn 2021


6.18 Yn ôl atyniadau a roddodd resymau dros gynnydd yn nifer yr ymwelwyr, roedd y prif ffactorau'n ymwneud â chyfyngiadau COVID-19. Nodir y rhain isod yn y delweddau a'r dyfyniadau.




**Gallu agor am  
fwy o wythnosau  
yn y flwyddyn**



**Cyfyngiad ar deithio dramor  
yn arwain at  
fwy o wyliau gartref**



**Llai o gyfyngiadau**



**Bod ar agor yn  
ystod tymor yr haf**



**Mwy o hyder gan  
ddefnyddwyr  
o gymharu â 2020**



**Awydd i ymweld ag  
atyniadau yn sgil  
cyfnodau clo dro ar ôl  
tro hyd at ddechrau 2021**

*“Bu cyfnodau cau hirach yn 2020 oherwydd COVID-19 a nifer y cyfyngiadau a systemau archebu oedd ar waith pryd bynnag roedden ni ar agor yn ystod 2020”  
Atyniad dan do*

*“Yn 2020, dim ond ym mis Awst a mis Medi roedden ni ar agor, ond yn 2021, roedden ni ar agor o fis Ebrill ymlaen. Ac roedd y misoedd roedden ni ar agor yn llawer prysurach na rhai o'r blynyddoedd cyn y pandemig”  
Atyniad dan do ac awyr agored*

*“Rhoddodd gwyliau gartref hwb i nifer yr ymwelwyr. Roedd cyfyngiadau ar deithio tramor oherwydd COVID-19, felly roedd pobl yn teithio o fewn y DU”  
Atyniad awyr agored*

*“Roedd pobl yn ysu i fynd allan. Cawsom ein haf prysuraf erioed yn 2021”  
Atyniad awyr agored*




## Ffactorau ar gyfer y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn 2021

6.19 Roedd y ffactorau a roddwyd ar gyfer gostyngiad mewn ymwelwyr weithiau yn rhesymau a oedd yn benodol i bob atyniad. Fodd bynnag, nodir rhai o'r themâu mwyaf cyffredin isod yn y ddelweddau a'r dyfyniadau.



**Elfennau eraill o atyniad yn aros ar gau, fel caffi, golygu bod pobl yn llai tebygol o ymweld**



**Agor yn hwyrach yn y flwyddyn nag arfer oherwydd diffyg gwirfoddolwyr**



**Agor yn hwyrach yn y flwyddyn ar ôl i reolau cadw pellter cymdeithasol gael eu codi (Awst 2021)**

*“Caeodd caffi'r amgueddfa oherwydd pandemig COVID-19. Mae hyn wedi lleihau nifer yr ymwelwyr yn gyffredinol, er y bu'r amgueddfa ar agor am fwy o fisoedd yn 2021 (chwech o gymharu â phedwar)”*

Atyniad dan do

*“Fe wnaethon ni agor yn hwyrach nag yr oedd gennym yr hawl i wneud oherwydd bod gennym ni sylfaen o wirfoddolwyr oedrannus nad oedden nhw'n gyfforddus i ddychwelyd eto”*

Atyniad dan do ac awyr agored

*“Nid oedd yn ymarferol yn economaidd i ni agor gyda'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Ni fyddem wedi gallu adennill costau”*

Atyniad dan do




## 7. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth

- 7.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau, gan gymharu ffigurau 2021 â ffigurau 2020 a 2019. Mewn rhai achosion, gwnaed cymariaethau â 2018 hefyd.
- 7.2 Sylwer bod yr adran hon dim ond yn berthnasol i atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer blynyddoedd blaenorol, er mwyn gwneud cymariaethau o ffactorau tebyg. Rydym felly wedi canolbwyntio ar newidiadau canrannol yn nifer yr ymwelwyr, yn hytrach na chyfanswm yr ymwelwyr. Mae hyn er mwyn osgoi darparu dwy set o ffigurau ymwelwyr yn yr adroddiad hwn.

### Cymariaethau cyffredinol mewn ffigurau ymwelwyr

- 7.3 Mae Ffigur 7.1 isod yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr o 2019 i 2021, gan ddefnyddio data o atyniadau a gwblhaodd arolygon 2018, 2019, 2020 a 2021.
- 7.4 Ychydig o wahaniaeth oedd yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau rhwng 2018 a 2019 (cynydd o 1% yn 2019). Arweiniodd pandemig COVID-19 at ostyngiad o 60% yn nifer yr ymwelwyr yn 2020. Bu cynnydd sylweddol yn 2021, gyda nifer yr ymwelwyr yn cynyddu 68%. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymwelwyr yn 2021 yn dal yn is na lefelau 2019. Roedd nifer yr ymwelwyr yn 2021 33% yn is na ffigurau 2019.
- 7.5 Mae atyniadau a oedd ar gau yn 2020 neu 2021 oherwydd pandemig COVID-19 wedi'u dosbarthu fel petaent heb gael unrhyw ymwelwyr. Nod hyn yw helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar atyniadau. O'r 150 o atyniadau sydd wedi'u cynnwys yn y gymhariaeth isod, roedd 17 ar gau yn 2021, a 15 ar gau yn 2020.

Ffigur 7.1



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018, 2019, 2020 a 2021 (150)

7.6 Mae sylwadau ansoddol gan atyniadau yn awgrymu eu bod wedi gallu agor yn ystod cyfnod allweddol yr haf yn 2021 er bod atyniadau wedi cau am gyfnod sylweddol o amser yn ystod 2020 a 2021. Dywedodd rhai atyniadau eu bod wedi gwneud yn dda iawn yn ystod haf 2021, a dywedodd rhai hyd yn oed eu bod wedi gosod recordiau newydd.

*“Yn y diwedd, fe gawson ni flwyddyn hynod lwyddiannus. Roedd yr haf yn hynod o brysur. Roedd hyd yn oed yn brysurach na'r blynyddoedd cyn y pandemig. Ym mis Mehefin, gwnaethom brofi cynnydd o 35% o gymharu â mis Mehefin 2019, a chynnydd o 40% ym mis Gorffennaf o gymharu â mis Gorffennaf 2019”*  
Atyniad awyr agored


### Cymariaethau fesul math o fynediad

7.7 Mae Ffigur 7.2 isod yn dangos y newid canrannol yn yr ymwelwyr o'r naill flwyddyn i'r llall o 2020 i 2021, fesul math o fynediad, gan ddefnyddio data o atyniadau a gwblhaodd arolygon 2019, 2020 a 2021.

7.8 Profodd atyniadau â thâl mwy o ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn 2020 nag atyniadau rhad ac am ddim. Gostyngodd ymweliadau ag atyniadau â thâl 72% a gostyngodd ymweliadau ag atyniadau rhad ac am ddim 54%.

7.9 Profodd atyniadau â thâl gynnydd mwy o faint mewn ffigurau ymwelwyr yn 2021 (132%) o gymharu ag atyniadau rhad ac am ddim (44%).

Ffigur 7.2



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, 2020 a 2021 (219)<sup>13</sup>

7.10 Mae atyniadau â thâl a ac atyniadau rhad ac am ddim bellach mewn sefyllfa debyg o ran cymharu nifer yr ymwelwyr rhwng 2021 a 2019 (cyn y pandemig). Roedd nifer yr ymwelwyr

<sup>13</sup> Sylwer: Ar gyfer yr atyniadau a oedd ar gau yn 2020 neu 2021, rydym wedi tybio pe byddent wedi bod ar agor, byddent naill ai wedi codi tâl neu beidio â chodi tâl am fynediad, yn seiliedig ar b'un a wnaethant godi tâl neu beidio yn 2019 neu 2020.

ag atyniadau rhad ac am ddim 34% yn is nag yr oeddent yn 2019, ac roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau â thâl 35% yn is.

7.11 Gan edrych ymlaen at 2022, mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod rhai atyniadau sy'n codi tâl am fynediad yn poeni am effaith y cynnydd mewn costau byw ar eu perfformiad yn 2022.

*“Nid yw'r hinsawdd economaidd o'n plaid ni. Mae'n rhaid i bobl fod yn llym iawn o ran yr hyn maen nhw'n gwario'u harian arno. Ar ddiwrnodau allan, bydd pobl yn chwilio am atyniadau rhad ac am ddim, neu efallai draeth, yn hytrach nag atyniadau sy'n codi tâl”*


Atyniad dan do

### Cymariaethau fesul rhanbarth

7.12 Mae Ffigur 7.3 isod yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr o 2020 i 2021, fesul rhanbarth. Yn y Canolbarth a'r De-orllewin y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn ffigurau ymwelwyr yn 2021, gyda chynnydd o 86% mewn ymweliadau ag atyniadau yn y Canolbarth , a chynnydd o 98% mewn ymweliadau ag atyniadau yn Ne-orllewin Cymru o gymharu â 2020.

7.13 De-ddwyrain Cymru welodd y cynnydd lleiaf yn ffigurau ymwelwyr rhwng 2020 a 2021 (48%), a hefyd y gostyngiad mwyaf yn nifer yr ymwelwyr rhwng 2019 a 2020 (69%).

Ffigur 7.3




Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, 2020 a 2021 (219)

7.14 Roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau yn Ne-ddwyrain Cymru yn dal i fod 54% yn is na nifer yr ymwelwyr yn 2019. Roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau yng Nghanolbarth Cymru 34% yn is, ac roedd y ffigurau ar gyfer De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru 26% ac 20% yn is yn y drefn honno.

## Cymariaethau fesul math o leoliad

- 7.15 Mae Ffigur 7.4 yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr rhwng 2020 a 2021, fesul math o leoliad. Atyniadau tanddaearol welodd y cynnydd mwyaf yn nifer yr ymwelwyr rhwng 2020 a 2021 (cynnydd o 145%). Sylwer mai dim ond pedwar atyniad tanddaearol a gwblhaodd yr arolwg.
- 7.16 O gymharu, atyniadau dan do welodd y cynnydd lleiaf yn nifer yr ymwelwyr rhwng 2020 a 2021 (cynnydd o 12%).

Ffigur 7.4



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, 2020 a 2021 (219)

- 7.17 Roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau dan do yn 2021 yn dal i fod 78% yn is nag yr oeddent yn 2019. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau tanddaearol yn 2021, mae nifer yr ymwelwyr yn dal i fod 56% yn is na'r lefelau yn 2019, cyn y pandemig.
- 7.18 Roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau a ddsbarthwyd yn rhai 'dan do ac awyr agored' 34% yn is nag yn 2019. Roedd niferoedd yr ymwelwyr ag atyniadau awyr agored yn mynd yn groes i'r duedd, ac roeddent 3% yn uwch na'r lefelau yn 2019, cyn y pandemig.
- 7.19 Mae sylwadau ansoddol gan atyniadau yn awgrymu eu bod yn teimlo ei bod yn well gan bobl ymweld ag atyniadau awyr agored yn hytrach nag atyniadau dan do, oherwydd ofnau parhaus ynghylch COVID-19.

*“Fel llawer o atyniadau awyr agored, roedd ein ffigurau ymwelwyr wedi cynyddu'r llynedd. Roedd pobl eisiau ymweld â manau awyr agored dros ardaloedd dan do. Yr her hirdymor yw p'un a yw'n gynaliadwy”*  
Atyniad awyr agored

*“Cafodd pobl eu digalonni gan y cerbydran gyfyng. Roeddent yn dal i fod yn wylidwrus ynghylch COVID-19. Nid oedd rhai pobl eisiau bod mewn cerbydran fach, ac er bod gennym fasnau a'n bod yn agor y ffenestri, roedden nhw'n dewis i beidio*

*ag ymweld. Mae canran uchel o'n hymwelwyr yn hŷn, ac roedd risg uwch yn perthyn iddyn nhw, ac yn bendant fe welson ni ostyngiad fan'no"*  
Atyniadau dan do ac awyr agored

*"Y broblem fwyaf oedd gwaddol COVID-19 ac, yn benodol, y newid yn ymddygiad ymwelwyr, o ran eu bod eisiau ymweld ag ardaloedd awyr agored ac nid ardaloedd dan do"*  
Atyniad dan do

- 7.20 O ganlyniad i'r newid hwn yn ymddygiad ymwelwyr, dywedodd atyniadau awyr agored hefyd eu bod yn profi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr newydd. Dywedodd rhai o'r rheini a gymerodd ran mewn cyfweiliad dilynol fod yr ymwelwyr newydd hyn wedi parhau i ymweld â'u hatyniad yn 2022.

*"Cawsom lawer o ymwelwyr nad oedd erioed wedi ymweld â ni o'r blaen. Gwnaethon ni agor cyn atyniadau dan do, ac roedd pobl eisiau mynd allan ar ôl dwy flynedd o fod dan do. Hyd yn hyn, rydyn ni ar yr un lefel â'r llynedd, ond fe gawn weld yn ystod gwyliau'r haf p'un a yw'r duedd hon wedi parhau"*  
Atyniad awyr agored

*"Yn syml, roedd pobl eisiau mynd allan. Cawsom lawer o ymwelwyr newydd. Yn wir, roedden nhw mor newydd fel nad oedden nhw'n gwisgo'r dillad priodol"*  
Atyniad awyr agored

*"Rydyn ni dal i fod yn brysur iawn eleni, felly mae gennym ni rywfaint o obaith y bydd yr ymwelwyr newydd o 2021 yn parhau i ddod yn ôl atom ni. Mae arwyddion cynnar yn dangos ein bod ni'n debyg i'r llynedd, ond mae'r cyfan yn dibynnu ar dymor yr haf"*  
Atyniad awyr agored

- 7.21 Mae rhai sylwadau ansoddol yn awgrymu yr hoffai atyniadau dan do gael cymorth gan Croeso Cymru i annog pobl yn ôl i atyniadau dan do.


*"Mae Croeso Cymru wedi canolbwyntio ar y farchnad awyr agored ers blynyddoedd bellach. Rwy'n deall pam y cafodd Blwyddyn yr Awyr Agored ei hymestyn o 2020 i 2021, ond yr atyniadau dan do sydd angen cymorth nawr. Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw sylw ers dwy flynedd"*  
Atyniad dan do

### **Cymariaethau fesul categori**

- 7.22 Mae Ffigur 7.5 drosodd yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr rhwng 2020 a 2021, fesul categori'r atyniad.
- 7.23 Profodd atyniadau rheilffordd/teithio gynnydd sylweddol mewn ymwelwyr rhwng 2020 a 2021. Cynyddodd ymweliadau â'r mathau hyn o atyniadau 271%. Cafodd atyniadau rheilffordd/teithio eu taro'n sylweddol yn 2020, gydag 83% yn llai o ymwelwyr yn 2020 o gymharu â 2019 (ffigureau o arolwg blaenorol, a sampl gwahanol).

7.24 Profodd nifer o fathau o atyniadau gynnydd o 100% neu fwy yn nifer yr ymwelwyr. Fodd bynnag, yn y categorïau atyniadau a welodd y cynnydd mwyaf yn 2021, gwnaethom hefyd weld rhai o'r gostyngiadau mwyaf yn ffigurau ymwelwyr yn 2020 o gymharu â 2019.

Ffigur 7.5




Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2020 a 2021, ac eithrio atyniadau y pennwyd dosbarth 'arall' iddynt (216)

*Rhybudd: Meintiau sampl bach ar gyfer atyniadau 'gwyddoniaeth/technoleg', 'parc thema/hamdden', 'bwyd a diod', ac atyniadau 'ffermydd/bridiau prin'*

- 7.25 Mae Ffigur 7.6 drosodd yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr rhwng 2021 a 2019, fesul categori atyniad.
- 7.26 Roedd nifer yr ymwelwyr â rhai mathau o atyniadau yn 2021 yn debyg i nifer yr ymwelwyr a dderbyniwyd cyn y pandemig yn 2019. Dim ond 2% yn is oedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau antur/gweithgaredd a pharciau gwledig/gerddi yn 2021 o gymharu â 2019, ac roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau bywyd gwylt/gwarchodfeydd natur dim ond 3% yn is yn 2021 o gymharu â 2019.
- 7.27 Roedd nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd/orielau celf yn 2021 yn dal i fod ymhell islaw'r lefelau yn 2019 cyn y pandemig. Roedd nifer yr ymwelwyr â'r atyniadau hyn 78% yn is yn 2021 o gymharu â lefelau 2019.
- 7.28 Yn yr un modd, roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau diwydiannol/crefft 71% yn is yn 2021 o gymharu â lefelau 2019, ac roedd nifer yr ymwelwyr ag atyniadau bwyd neu ddiod 66% yn is.

Ffigur 7.6



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, 2020 a 2021, ac eithrio atyniadau y pennwyd dosbarth 'arall' iddynt (216)


*Rhybudd: Meintiau sampl bach ar gyfer atyniadau 'gwyddoniaeth/technoleg', 'parc thema/hamdden', 'bwyd a diod', ac atyniadau 'ffermydd/bridiau prin'*

### Cymariaethau fesul perchennog

- 7.29 Mae Ffigur 7.7 drosodd yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr rhwng 2020 a 2021, fesul perchennog yr atyniad. Nid yw atyniadau a weithredir gan yr RSPB wedi'u cynnwys oherwydd bod maint y sampl yn rhy fach i allu gwneud cymariaethau rhwng blynyddoedd blaenorol.
- 7.30 Cadw oedd un o'r gweithredwyr a brofodd rhai o'r gostyngiadau mwyaf sylweddol yn 2020 o gymharu â 2019. Felly, nid yw'n syndod bod nifer ei ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol yn 2021 o gymharu â 2020 (cynnydd o 298%).
- 7.31 Cynyddodd nifer yr ymwelwyr yn sylweddol hefyd yn achos atyniadau a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sef cynnydd o 184%.

Ffigur 7.7

### Newid yn nifer yr ymwelwyr yn ôl perchnogaeth (2021 vs 2020)




Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2020 a 2021, ac eithrio atyniadau a weithredir gan yr RSPB (216)

- 7.32 Mae Ffigur 7.8 isod yn dangos y newid canrannol mewn ymwelwyr rhwng 2021 a 2019, fesul categori'r atyniad. Roedd ymweliadau ag atyniadau a weithredir gan Cyfoeth Naturiol Cymru 4% yn uwch na nifer yr ymweliadau â'u safleoedd yn 2019. Roedd ymweliadau â phob math arall o berchennog yn dal i fod islaw eu lefelau yn 2019 cyn y pandemig.
- 7.33 Dim ond cynnydd bychan a brofodd Amgueddfa Cymru yn nifer yr ymwelwyr yn 2021 o gymharu â 2020 (48%), o gymharu â rhai o'r mathau eraill o berchennog (gweler ffigur 7.7 uchod). Nid yw'n syndod, felly, bod nifer yr ymwelwyr ag atyniadau Amgueddfa Cymru yn 2021 yn dal i fod 74% yn is na'r lefelau yn 2019 cyn y pandemig.

Ffigur 7.8

### Newid yn nifer yr ymwelwyr yn ôl perchnogaeth (2021 o'i gymharu â 2019)



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, 2020 a 2021, ac eithrio atyniadau a weithredir gan yr RSPB (216)



## 8. Taliadau mynediad

### Taliadau mynediad cyffredinol ar gyfer atyniadau â thâl

- 8.1 Y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 oedd £11.93 i oedolion a £7.11 i blant.
- 8.2 O gymharu ffigurau tâl mynediad gan atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 a 2020, mae hyn yn dangos bod taliadau mynediad wedi codi 6% ar gyfer oedolion, a 10% ar gyfer plant.
- 8.3 Mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod angen i atyniadau adennill colledion o 2020, a hefyd bod y taliadau'n cynnwys y gost gynyddol o redeg eu hatyniad. Soniodd rhai am y ffaith, yn ogystal â'r cynnydd mewn tâl mynediad yn 2021, eu bod wedi, neu'n bwriadu cynyddu eu tâl mynediad ar gyfer 2022 hefyd.

*“Fe wnaethon ni gynyddu ein prisiau yn 2021 er mwyn adennill colledion oherwydd bu'n rhaid i ni gymryd benthyciadau i gynnal ein hunain. Mae'r cynnydd mewn costau cyflenwi eleni wedi mynd yn hurt. Rydym wedi gorfod codi prisiau ddwywaith eleni [2022]. Y cwsmer ar ddiwedd y dydd fydd yn gorfod talu'r costau ychwanegol”*  
Atyniad awyr agored

*“Cynyddodd ein prisiau ar gyfer 2021 i geisio adennill arian gan ein bod wedi bod yn brin iawn ar arian, ac roedd y galw yno, felly roeddem yn teimlo y gallem godi prisiau a dal i fod yn brysur”*  
Atyniad awyr agored

*“Mae ein cynnydd mewn ymwelwyr wedi dod gyda heriau. Fe wnaethom gynyddu ein prisiau ar ddiwedd 2021 oherwydd bod angen i ni wella ein cyfleusterau o ganlyniad i ni gael cymaint mwy o ymwelwyr yn 2021. Ond os bydd costau'n parhau i godi, yna bydd angen i ni godi ein prisiau eto, i dalu am bethau fel trydan”*  
Atyniad dan do ac awyr agored

### Tâl mynediad cyfartalog fesul rhanbarth

- 8.4 Roedd y taliadau mynediad cyfartalog i oedolion ar gyfer atyniadau a ddarparodd ddata rhwng £12.50 a £13.70 ar gyfer Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru. Roedd y tâl mynediad cyfartalog i oedolion ar gyfer atyniadau yn Ne-orllewin Cymru yn llawer is, sef £8.89.
- 8.5 Roedd y taliadau mynediad cyfartalog i blant hefyd yn debyg ar gyfer Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru. Roedd y tâl mynediad cyfartalog i blant ar gyfer y rhanbarthau hyn yn amrywio rhwng tua £7.40 a £7.90. Unwaith eto, roedd y taliadau mynediad isaf ymhlith atyniadau yn Ne-orllewin Cymru, sef £5.22.

Ffigur 8.1: Tâl mynediad cyfartalog fesul rhanbarth

Tâl mynediad cyfartalog	Sampl	Tâl mynediad cyfartalog i oedolion	Tâl mynediad cyfartalog i blant
Canolbarth	24	£13.68	£7.69
Gogledd	51	£12.67	£7.92
De-ddwyrain	39	£12.69	£7.42
De-orllewin	36	£8.89	£5.22
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	150	£11.93	£7.11

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021

### Tâl mynediad cyfartalog fesul perchennog

- 8.6 Roedd y taliadau mynediad cyfartalog uchaf ar gyfer perchnogion preifat/ymdiriedolaethau. Y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer y rhain oedd £13.62 i oedolion, a £7.92 i blant.
- 8.7 Roedd y taliadau mynediad cyfartalog isaf ar gyfer atyniadau a weithredir gan Cadw. Y tâl mynediad cyfartalog ar gyfer atyniadau a weithredir gan Cadw oedd £6.53 i oedolion, a £4.57 i blant.

Ffigur 8.2: Tâl mynediad cyfartalog fesul perchennog

Tâl mynediad cyfartalog	Sampl	Tâl cyfartalog i oedolion	Tâl cyfartalog i blant
Cadw	19	£6.53	£4.57
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	14	£9.90	£7.31
Yr Ymdiriedolaeth Genedlaethol	13	£9.65	£4.83
Perchennog preifat / ymdiriedolaeth	102	£13.62	£7.92
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	148	£11.93*	£7.11*

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021, ac eithrio safleoedd a weithredir gan yr RSPB oherwydd sampl isel

\*Cyfanswm ymhlith yr holl atyniadau a ddarparodd ddata (gan gynnwys yr RSPB)

- 8.8 Wrth gymharu ffigurau tâl mynediad o atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 a 2020, mae hyn yn dangos bod taliadau mynediad wedi codi uchaf ar gyfer atyniadau a weithredir gan Cadw (cynnydd o 16% ar gyfer oedolion a chynnydd o 37% ar gyfer blant). Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, y taliadau mynediad ar gyfer atyniadau a weithredir gan Cadw oedd y rhai isaf yn 2021.

- 8.9 Cododd taliadau mynediad hefyd ar gyfer atyniadau a weithredir gan awdurdodau lleol/parciau cenedlaethol, ac atyniadau a weithredir gan berchnogion preifat/ymdiriedolaethau. Fodd bynnag, roedd y cynnydd yn yr achosion hyn yn llawer llai.
- 8.10 Sylwer bod y sampl ar gyfer awdurdodau lleol/parciau cenedlaethol yn isel oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o'r atyniadau hyn yn codi tâl mynediad. Nid oes digon o sampl i gymharu ffigurau taliadau mynediad ar gyfer atyniadau'r Ymdiriedolaeth Genedlaethol.

Ffigur 8.3: Tâl mynediad cyfartalog fesul perchennog

Tâl mynediad cyfartalog	Sampl	Canran y newid yn y tâl mynediad i oedolion	Canran y newid yn y tâl mynediad i blant
Cadw	18	16%	37%
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	9	8%	2%
Perchennog preifat / ymdiriedolaeth	55	3%	5%


Sampl: Atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 a 2020 (82), ac eithrio safleoedd a weithredir gan yr RSPB neu'r Ymdiriedolaeth Genedlaethol oherwydd sampl isel

## 9. Gweithrediadau

### Symudiad refeniw gros

- 9.1 Nododd tua dwy ran o dair (67%) o atyniadau dwf mewn refeniw yn 2021 o gymharu â 2020, a dywedodd 22% fod eu refeniw yr un peth, a dywedodd 11% fod eu refeniw wedi gostwng.
- 9.2 O gymharu, ac fel y nodwyd yn gynharach, dywedodd 85% o'r atyniadau fod nifer eu hymwelwyr wedi cynyddu rhwng 2020 a 2021. Felly, ni wnaeth cynnydd mewn ymwelwyr yn 2021 gyfateb i gynnydd mewn refeniw ar gyfer pob atyniad.
- 9.3 Wrth edrych ar ganlyniadau fesul math o leoliad, adroddodd 70% o atyniadau awyr agored gynnydd mewn refeniw yn 2021, ond dim ond 42% o atyniadau dan do adroddodd gynnydd mewn refeniw. Gwelodd 80% o atyniadau sy'n ystyried eu hunain yn atyniadau dan do ac awyr agored hefyd gynnydd mewn refeniw, a nododd y pedwar atyniad tanddaearol gynnydd mewn refeniw.

Ffigur 9.1



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 (249)

- 9.4 Gofynnwyd i'r rheini a brofodd gynnydd yn eu refeniw beth oedd canran y cynnydd, os oedd yn hysbys. O'r 166 o atyniadau a adroddodd gynnydd mewn refeniw ar gyfer 2020, roedd 69 yn gallu darparu canran y cynnydd. Y cynnydd cyfartalog ymhlith yr atyniadau hyn oedd 95%.
- 9.5 O'r 29 o atyniadau a adroddodd ostyngiad mewn refeniw ar gyfer 2020, dim ond 12 oedd yn gallu darparu canran y gostyngiad. Y gostyngiad cyfartalog ymhlith yr atyniadau hyn oedd 48%.

### Cyfanswm cyflogaeth yn 2021

- 9.6 Gofynnwyd i atyniadau ddarparu dadansoddiad o weithwyr a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau a oedd yn ymwneud â thwristiaeth yn 2021.

- 9.7 Gwirfoddolwyr tymhorol di-dâl oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o weithwyr (32%), ac yna staff parhaol amser llawn (23%).
- 9.8 Yn gyffredinol, roedd staff parhaol – boed yn amser llawn, yn rhan-amser neu'n ddi-dâl, yn cyfrif am 47% o'r staff, tra bod staff tymhorol yn cyfrif am 53% o'r staff yn 2021.
- 9.9 Mae data ar gyfer 2020 a 2019 yn dangos bod cyfran y staff ar gyfer pob categori yn 2021 yn gymharol debyg i naill ai ffigurau 2020, neu ffigurau 2019. Mae data ar gyfer pob categori yn debygol o amrywio bob blwyddyn oherwydd y sampl gwahanol o atyniadau sy'n cwblhau'r arolwg bob blwyddyn, neu sy'n gallu ateb y cwestiwn hwn yn benodol.
- 9.10 Amlygodd adroddiad y llynedd fod staff tymhorol yn cael ergyd galetach na staff parhaol. Yn 2019 roedd staff tymhorol yn cyfrif am 57% o'r staff. Yn 2020, dim ond 39% o staff oedd yn staff tymhorol. Yn 2021, roedd staff tymhorol yn cyfrif am 53% o'r staff, sy'n awgrymu efallai y bu cynnydd yn ôl i lefelau sy'n agos i'r rheini cyn y pandemig o ran y gyfran o staff sy'n dymhorol.

Ffigur 9.2: Cyfanswm cyflogaeth yn 2019 a 2020

Math o weithiwr		Nifer y gweithwyr	% y staff yn 2021	% y staff yn 2020	% y staff yn 2019
Swydd parhaol	Amser llawn	1,441	23%	25%	17%
	Rhan-amser	822	13%	22%	14%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	693	11%	15%	12%
Tymhorol	Amser llawn	209	3%	3%	3%
	Rhan-amser	1,126	18%	15%	11%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	2,064	32%	21%	43%
Cyfanswm		6,355	100%	100%	100%


Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (274), 2020 (235) a 2021 (230), (data 2019 a 2020 a gymerwyd o arolwg blaenorol)

### Newid mewn cyflogaeth

- 9.11 Mae Ffigur 9.3 drosodd yn dangos y cyfanswm cyflogaeth rhwng 2021 a 2018. Sylwer bod sampl gwahanol ar gyfer pob blwyddyn, sy'n golygu nad yw hon yn gymhariaeth o ffactorau tebyg o atyniadau. Fodd bynnag, gall y data hwn roi syniad o dueddiadau cyflogaeth yn y sector.
- 9.12 Yn 2021, roedd atyniadau'n cyflogi 6,355 o staff, ac yn 2020 roedd atyniadau'n cyflogi 5,440 o staff. Mae hyn yn gynydd o 17%. Bu cynnydd hefyd o 17% ymhlith atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 a 2020 (cymhariaeth o ffactorau tebyg).
- 9.13 Fodd bynnag, mae'r siart isod yn awgrymu nad oedd lefelau cyflogaeth yn 2021 wedi adfer i'r lefelau cyn y pandemig o hyd. Yn 2019, roedd atyniadau'n cyflogi 10,122 o staff, ac yn 2018,

roedd atyniadau'n cyflogi 9,453 o staff. Felly, er y bu cynnydd o 17% yn nifer y staff rhwng 2020 a 2021, roedd nifer y staff a gyflogwyd gan atyniadau yng Nghymru yn debygol o fod ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig o hyd.

Ffigur 9.3



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 (230), 2020 (235), 2019 (274), neu 2018 (248) (cymerwyd data 2020-2018 o arolygon blaenorol)

9.14 Mae sylwadau ansoddol gan atyniadau yn awgrymu bod recriwtio wedi bod yn her sylweddol yn ystod 2021. Hyd yn oed pe bai atyniadau am gyflogi mwy o staff, nid oedd pob un ohonynt yn gallu llenwi'r swyddi yr oeddent yn recriwtio ar eu cyfer. Mae hyn wedi parhau i fod yn broblem i rai i mewn i 2022.

*“Dwi wedi bod yma ers dwy flynedd ar hugain a dydw i erioed wedi cael problem gyda recriwtio, a dwi wedi arfer â chael 100 o geisiadau fesul swydd. Ni ddigwyddodd hyn yn 2021 ac roeddwn yn fyr o staff mewn meysydd penodol, doedden ni ddim yn gallu recriwtio. Roedd hyn yn golygu oriau gweithredu byrrach a gostyngiad mewn gwasanaethau. Gwnaeth y broblem barhau eleni, ond nid yw cynddrwg nawr”*

Atyniad dan do ac awyr agored


*“Y brif broblem i ni yn 2021 oedd doedd dim digon o staff o gwmpas hyd yn oed ar ôl i ni gael caniatâd i ailagor. Bydden ni fel arfer yn recriwtio llawer o weithwyr tymhorol yn yr haf. Nid oedd llawer o dramor, ond roedd ychydig. Y broblem yw bod busnesau eraill yn yr ardal hefyd yn colli'r gweithwyr tramor hynny, ac yn awr rydyn ni'n cystadlu dros gronfa fach iawn o bobl. Mae wir yn waeth eleni”*

Atyniad awyr agored

## Lefelau gwariant marchnata

- 9.15 Mae Ffigur 9.4 isod yn dangos y lefelau gwariant marchnata ar gyfer pob blwyddyn. Ym mhob arolwg, gofynnwyd i atyniadau a oeddent wedi gwario mwy ar farchnata na'r flwyddyn flaenorol, swm tebyg, neu lai na'r flwyddyn flaenorol.
- 9.16 Yn 2018 a 2019, dywedodd tua thri chwarter o'r atyniadau fod eu gwariant marchnata yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Oherwydd pandemig COVID-19, nid yw'n syndod, yn 2020, bod 76% o'r atyniadau wedi dweud eu bod wedi gwario llai ar farchnata na'r flwyddyn flaenorol.
- 9.17 Dywedodd dros hanner yr atyniadau (57%) eu bod wedi gwario swm tebyg i 2020 ar farchnata yn 2021. Dywedodd 21% o'r atyniadau fod eu gwariant marchnata wedi cynyddu, a dywedodd 23% fod eu gwariant marchnata wedi gostwng o gymharu â 2020.

Ffigur 9.4




Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 (213), 2019 (290), 2020 (254) a 2021 (242)

## 10. Proffil ymwelwyr ar gyfer 2021

### Cyfran ymweliadau oedolion a phlant

10.1 Gofynnwyd i atyniadau amcangyfrif pa gyfran o'u hymwelwyr oedd yn oedolion, a pha gyfran oedd yn blant. Yn 2021, roedd 72% o ymwelwyr yn oedolion a 28% yn blant. Mae'r rhain yn debyg i amcangyfrifon yn 2020 a 2019.

Ffigur 10.1: Cyfran ymweliadau oedolion a phlant yn gyffredinol ar gyfer 2021



Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (287), 2020 (187) a 2021 (208)

### Cyfran ymweliadau oedolion a phlant fesul categori atyniad

10.2 Mae Ffigur 10.2 drosodd yn dangos bod mwyafrif yr ymwelwyr yn oedolion ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu'r atyniadau, ac eithrio atyniadau fferm/bridiau prin, lle'r oedd 52% o'r ymwelwyr yn blant. Ar gyfer atyniadau bwyd a diod, oedolion oedd mwyafrif helaeth yr ymwelwyr (91%). Nid yw llawer o'r atyniadau hyn yn caniatáu plant.

10.3 Mae'r tabl wedi'i drefnu o'r uchaf i'r isaf yn ôl cyfran yr ymwelwyr sy'n oedolion.



Ffigur 10.2: Cyfran ymweliadau oedolion a phlant fesul categori atyniad ar gyfer 2021

Categori'r atyniad	Sampl ar gyfer 2021	% yr ymwelwyr sy'n oedolion ar gyfartaledd 2021	% yr ymwelwyr sy'n blant ar gyfartaledd 2021
Atyniad bwyd neu ddiod	9	91%	9%
Atyniad diwydiannol / crefft	14	78%	22%
Amgueddfa / oriel gelf	56	78%	22%
Eiddo hanesyddol	34	76%	24%
Parc gwledig / gardd	23	72%	28%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	17	71%	29%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	4	70%	30%
Rheilffordd / teithio	18	67%	33%
Atyniad antur / gweithgaredd	14	62%	38%
Parc thema / hamdden	4	62%	38%
Atyniad arall	3	58%	42%
Fferm / bridiau prin	12	48%	52%
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	207	72%	28%


Sampl: atyniadau 'a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 (203

*Rhybudd: meintiau sampl bach*

### Tarddiad ymwelwyr ar gyfer 2021, 2020 a 2019

- 10.4 Gofynnwyd i atyniadau amcangyfrif pa gyfran o'u hymwelwyr oedd o Gymru, o weddill y DU, ac o wledydd tramor. Amcangyfrifwyd bod 52.5% o'r ymwelwyr o Gymru ar gyfartaledd sy'n is na 2020 (59%), ond yn uwch na 2019 (47%).
- 10.5 Amcangyfrifwyd bod 42% yn dod o weddill y DU sy'n uwch na 2020 (38%), a'r un peth â 2019 (42%). Roedd y gyfran o dramor (5.5%) yn uwch na 2020 (3%), ond yn is na 2019 (10%).

Ffigur 10.3: Tarddiad ymwelwyr ar gyfer 2021




Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2021 (203)

### Cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau / teithiau wedi eu trefnu ar gyfer 2021, 2020 a 2019

10.6 Roedd cyfran yr ymwelwyr yr amcangyfrifwyd eu bod o grwpiau neu deithiau wedi'u trefnu yn 2021 yn 9%, sy'n debyg i'r amcangyfrifiad a ddarparwyd ar gyfer 2020 (8%). Wrth gymharu 2021 a 2019, dim ond 5% o wahaniaeth oedd rhwng cyfran yr ymwelwyr o grwpiau neu deithiau.

Ffigur 10.4: Cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau / teithiau wedi eu trefnu ar gyfer 2019, 2020 a 2021



Sampl: atyniadau a ddarparodd data ar gyfer 2019 (287), 2020 (186) a 2021 (201)

10.7 Er nad yw cyfran yr ymwelwyr o grwpiau yn annhebyg iawn o'i chymharu â 2019, mae sylwadau ansoddol yn awgrymu bod hyn wedi effeithio'n ddifrifol ar berfformiad rhai atyniadau yn 2021, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar ymweliadau coetsys neu ysgolion. Dywedodd rhai o'r atyniadau hyn fod ganddynt nifer mawr o ymwelwyr rheolaidd, ond ni wnaeth eu hymweliadau grŵp wella i'r lefelau cyn y pandemig.

*“Mae ein hydref fel arfer yn cael ei gefnogi gan ymweliadau ysgol ac ymweliadau coets. Roedd cwmnïau coets yn ei chael hi'n anodd llenwi coetsys, oherwydd bod y ddemograffeg yn tueddu i fod yn hŷn, ac mae'n bosibl y bydden nhw fel arfer yn llenwi coets o 40-70 o bobl. Ond doedd y coetsys ddim yn llawn o gwbl. Ac yna, hefyd, fe gawson ni lai o ymweliadau ysgol, doedden nhw ddim wedi ail-gydio a phethau, ac mae effeithiau COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw ers amser maith, a hyd yn oed i mewn i 2022. Felly, mae pethau fel absenoldebau staff, dal i fyny â chynnwys cyn diwedd y tymor neu arholiadau ac ati. Felly, nid oedd tripiâu ysgol yn bosibl”*

Atyniad dan do

*“Cafodd archebion ysgolion eu heffeithio'n aruthrol. Yn enwedig gyda'r swigod, a chadw gwahanol ddsbarthiadau a gwahanol ysgolion ar wahân. Roedd yn her logistaidd anodd, ac yn amlwg allwn ni ddim gweithredu'n iawn fel hyn. Ond hefyd, byddai pethau'n newid ar y funud olaf, er enghraifft diffyg staff, neu heriau ysgol eraill, ac yna byddent yn canslo”*

Atyniad dan do

## 11. Rhestr o atyniadau a ymatebodd i'r arolwg

Enw'r Atyniad	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2021	£ Oedolyn
Tŷ Aberconwy	G	YG	EH	-	-
Rhaeadr a Gwaith Tun Aberdulais	D-O	YG	DIW	-	-
Gerddi Aberglasney	D-O	PB	PG	41,500*	£9.75
Oriel ac Amgueddfa Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth	C	ALL / PC	AOC	500*	-
Parc Coedwig Afan	D-O	CNC	BG	117,279*	-
Amgueddfa Awyrennol Airworld	D-DD	PB	AOC	6,033	£6.50
Alpaca my Boots	C	PB	Fferm	3,000*	£25.00
Parc Gwledig Dyfroedd Alun	G	ALL / PC	PG	239,289*	-
Fferm Amelia Trust	D-DD	PB	Fferm	20,000*	£4.80
Amgueddfa Syr Henry Jones	G	PB	EH	40*	-
Amgueddfa'r Mor Porthmadog Maritime Museum	G	PB	AOC	4,521	£2.00
Ancre Hill Vineyard	D-DD	PB	B/D	476	-
Amgueddfa Cerflunwaith Andrew Logan	D-O	PB	AOC	3,000*	£5.00
Pentref Model Ynys Môn	G	PB	ARALL	8,656	£5.50
Arthog Bog	G	RSPB	BG	500*	-
Ynys Enlli	G	PB	BG	3,269	£30.00
Barry Island Pleasure Park	D-DD	PB	Thema	1,250,000*	-
Castell Biwmares	D-DD	Cadw	EH	99,018	£7.40
Carchar Biwmares	G	PB	EH	70,000*	£9.00
Big Pit – Amgueddfa Lofaol Cymru	D-DD	AC	AOC	27,792	-
Blaenavon Community Heritage & Cordell Museum	D-DD	PB	AOC	252	£2.00
Gwaith Haearn Blaenafon	G	Cadw	EH	9,389	£5.90
Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon	D-DD	ALL / PC	DIW	17,070*	-
Gerddi Bodnant	G	YG	PG	239,790	£14.00
Neuadd Bodrhyddan	G	PB	EH	1,293	£10.00
Coedwig Brechfa	D-O	CNC	BG	7,412*	
Brecon Mountain Railway	C	PB	RH/T	25,000*	£16.50
Amgueddfa Brynmawr a'r Cylch	D-DD	ALL / PC	AOC	225*	-
Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Cadair Idris	G	CNC	BG	46,495*	-
Cadeirlan Deiniol Sant my Mangor   Saint Deiniol in Bangor	G	PB	EH	2,000*	-

Enw'r Atyniad	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2021	£ Oedolyn
Cae Dai Trust Museum	G	PB	AOC	3,161*	£5.00
Gerddi Hir Gardens	D-O	PB	PG	3,500*	£6.00
Gerddi Caerau	G	PB	PG	2,500	£4.50
Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion	G	Cadw	EH	-	-
Castell Caernarfon	D-DD	Cadw	EH	76,273	£9.90
Castell Caerffili	D-DD	Cadw	EH	49,451	£9.00
Ynys Bŷr	D-O	PB	BG	60,000*	£2.00
Cambrian Heritage Railways (Oswestry)	C	PB	RH/T	-	-
Canolfan Hywel Dda	D-O	ALL / PC	EH	70*	-
Canolfan Rhiannon	C	PB	DIW	2,000*	-
Canolfan Y Plase	G	PB	AOC	-	-
Cardiff Bay Cruises (Cardiff Waterbus)	D-DD	PB	RH/T	19,955	£7.00
Cardiff Boat Tours Ltd - Princess Katharine + Singfly	D-DD	PB	RH/T	32,311	£5.00
Castell Caerdydd	D-DD	ALL / PC	EH	372,606	£14.50
Teithiau To Agored Caerdydd	D-DD	PB	RH/T	16,228	£14.00
Canolfan Bywyd Gwylt Morol Bae Ceredigion	D-O	PB	BG	9,239	-
Cardigan Island Coastal Farm Park	C	PB	BG	32,000*	£4.90
Castell a Melin Heli Caeriw	D-O	ALL / PC	EH	45,000*	£6.50
Amgueddfa Ceredigion	D-O	ALL / PC	AOC	-	-
Castell Aberteifi / Cardigan Castle	C	PB	EH	21,500*	£6.00
Castell Coch	D-DD	Cadw	EH	23,095	£7.40
Castell Henllys Iron Age Village	D-O	ALL / PC	EH	13,601	£6.50
Amgueddfa Glofa Cefn Coed	D-O	ALL / PC	AOC	-	-
Canolfan y Dechnoleg Amgen	C	PB	CW/T	14,013	£8.50
Amgueddfa Ceredigion	C	ALL / PC	AOC	7,956	-
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ceunant Llenyrch	G	CNC	BG	18,676*	-
Chapel Bay Fort & Museum	D-O	PB	AOC	-	-
Castell Cas-Gwent	D-DD	Cadw	EH	44,688	£5.90
Amgueddfa Cas-Gwent	D-DD	ALL / PC	AOC	5,637	-
